

Ffurflen Asesu Digonolrwydd Gofal Plant

Enw'r Awdurdod Lleol:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Enw'r Swyddog Cyfrifol:

Amy Castle a Bethan Davies

Dyddiad Cwblhau:

Dylid nodi bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant erbyn 31 Mawrth 2017. è

1. Rhagarweiniad

Cyflawni'r Asesiad – Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Yn ogystal â sefydlu llinell sylfaen o ran y ddarpariaeth, bydd yr Asesiad hefyd yn gymorth i Awdurdodau Lleol gyda:

- mesur natur a maint yr angen am ofal plant, a'r cyflenwad gofal plant yn yr ardal
- adnabod unrhyw fylchau yn y farchnad a chynllunio sut i gefnogi'r farchnad i'w llenwi

Cynhyrchwyd templed i hwyluso cyflawni arfarniad corfforaethol o'r materion sydd angen eu hystyried. Nodir y materion hyn yn y Canllawiau Statudol.

Rhaid i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ddangos bod yr Awdurdod Lleol wedi ystyried ac asesu'r materion a nodir yn Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdod Lleol) (Cymru) 2016 ac yn y Canllawiau Statudol.

Efallai y bydd Awdurdodau Lleol yn ystyried strwythuro'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn y ffordd ganlynol ac, o leiaf, rhoi sylw i'r holl adrannau a nodir.

Prif Ddatganiad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd gofal plant yn rôl eu teuluoedd. Ariennir y Tîm Gofal Plant gyda chyllid craidd i sicrhau bod y dyletswyddau statudol yn cael eu cwrdd; mae'r tîm yn rhan o'r Adran Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant o dan y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

Cefnogir gofal plant drwy'r RSG ac amlygir pwysigrwydd gofal plant ymhellach gan y cymorth a gynigir i deuluoedd drwy'r grantiau Teuluoedd yn Gyntaf a Gofal y Tu Allan i Orlaw Ysgol.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod bod marchnad gofal plant iach a chynaliadwy'n gymorth mawr i deuluoedd a phlant ar draws

ein sir gan sicrhau bod rhieni'n gallu parhau neu ddychwelyd i weithio, mynd ar gyrsiau hyfforddiant a rhoi cyfle i'w plant ennill profiadau cadarnhaol mewn lleoliadau gofal plant o ansawdd. Mae marchnad gofal plant gref yn gwella tlodi ymhlith plant a theuluoedd ac yn helpu plant gydag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd efallai'n fwy araf i ddatblygu.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn ymfalchïo yn ei darpariaeth gofal plant ar draws y sir ac yn parhau i'w chefnogi ym mhob agwedd ar ei datblygiad drwy'r Tîm Gofal Plant.

2. Cynnwys

1. Rhagarweiniad a Chyd-destun
2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori
3. Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Anghenion Lles Lleol
4. Poblogaeth
5. Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd
6. Y Cyflenwad Gofal Plant
 - 6.1 Gwarchodwr Plant
 - 6.2 Meithrinfa Drwy'r Dydd
 - 6.3 Gofal Dydd Sesiynol
 - 6.4. Crèche
 - 6.5 Gofal y Tu Allan i Orlau Ysgol
 - 6.6. Cynllun Chwarae Agored
 - 6.7. Nani
7. Deall Anghenion y Rhieni / Gofalwyr
 - 7.1. Y Defnydd Presennol
 - 7.2. Y Galw am Ofal Plant
 - 7.3. Rhwystrau gyda Gofal Plant
8. Addysg Feithrin am ddim a Dechrau'n Deg
9. Clwb Brecwast am ddim
10. Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant gyda Chymorth Cyflogwr / Gofal Plant Di-Dreth

11. Cynaliadwyedd
12. Trawsffiniol
13. Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu
14. Canlyniadau Ymgynghori gyda Rhanddeiliaid (gweler Adran 2)
15. Crynodeb – Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd i'w Gwella
16. Cynllun Gweithredu

Atodiadau

- | | |
|------------|--|
| Atodiad 1 | Data ar y Cyflenwad Gwarchodwyr Plant |
| Atodiad 2 | Data ar y Cyflenwad Meithrinfeydd Drwy'r Dydd |
| Atodiad 3 | Data ar y Cyflenwad Gofal Dydd Sesiynol |
| Atodiad 4 | Data ar y Cyflenwad Crèches |
| Atodiad 5 | Data ar y Cyflenwad Gofal y Tu Allan i Orlau Ysgol |
| Atodiad 6 | Data ar y Cyflenwad Chwarae Agored |
| Atodiad 7 | Data ar y Cyflenwad Nanis |
| Atodiad 8 | Data ar y Defnydd Presennol gan Rieni |
| Atodiad 9 | Data ar y Galw am Ofal Plant gan Rieni |
| Atodiad 10 | Addysg Rhan Amser (Cyfnod Sylfaen) Blynnyddoedd Cynnar |
| Atodiad 11 | Dechrau'n Deg |
| Atodiad 12 | Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant gyda Chymorth Cyflogwr / Gofal Plant Di-Dreth |
| Atodiad 13 | Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu |
| Atodiad 14 | Cynllun Gweithredu |

1. Rhagarweiniad a Chyd-destun

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn deillio o Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (CSA) Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cyflawni'r ddyletswydd statudol sydd ar yr Awdurdod Lleol, a amlinellir yn Adran 26 Deddf Gofal Plant 2006, sef 'dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu'r ddarpariaeth gofal plant', sy'n ategu Adran 22 yn y Ddeddf lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol *'sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, darpariaeth gofal plant sy'n ddigonol i gwrdd ag anghenion rhieni yn eu hardal fel y medrant:*

- *ddechrau gweithio neu barhau i weithio; neu*
- *cyflawni addysg neu hyfforddiant y gellid disgwyl yn rhesymol iddo eu cynorthwyo i ddod o hyd i waith.'*

O dan adran 26 Deddf Gofal Plant 2006 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi asesiadau o ba mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal a pharhau i'w hadolygu.

Yn wahanol i flynyddoedd cynt, lle mae'r data ar y cyflenwad wedi dod gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, daeth y data ar y cyflenwad eleni gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) drwy eu proses o gasglu data SASS. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r data hwn gael ei gasglu gan AGGCC ac er bod darparwyr gofal plant dan orfodaeth i ddarparu'r wybodaeth, dim ond 70% o'r darparwyr cofrestredig wnaeth gwblhau'r ceisiadau am ddata. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar y data hwn, data Cyfrifiad 2011, data ar enedigaethau a data poblogaeth, i gyd wedi'i atodi gan ddadansoddiad o'r ymatebion i ymgynghori a dderbyniwyd drwy'r marchnata cynhwysfawr a wnaed gan yr awdurdod lleol. Rhannwyd y sir yn ardaloedd cod post, sy'n deillio o'r wybodaeth SASS. Er mwyn gwneud y ddogfen yn haws i'w dadansoddi, mae'r tabl isod yn dangos yr ardaloedd sy'n cyfateb i'r codau post hyn:

CF31	Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Bracla, Coity, Pen-y-Fai
CF32	Cefn Cribwr, Trelales, Cwm Ogwr, Tondy, Sarn, Ynysawdre, Pontycymer, Llangainor, Cwm Garw, Blaengarw, Melin Ifan Ddu, Bettws ac Abercynffig.
CF33	Corneli a'r Pîl
CF34	Tref Maesteg, Llangynwyd, Caerau, Nantyffyllon
CF35	Pencoed, Llangrallo
CF36	Porthcawl, Notais a'r Drenewydd yn Notais
CF39	Evanstown a Gilfach Goch

Fel y nodwn uchod, mae'n hanfodol nodi bod y data cyflenwad gan AGGCC yn seiliedig ar gyfradd ymateb o 70% yn unig. Adlewyrchir hyn yn nifer y darparwyr ym Mhen-y-bont wnaeth ymateb ac sydd felly'n rhoi'r data cyflenwad ar gyfer Pen-y-bont. O ganlyniad i'r ymateb isel, mae perygl y bydd y bylchau a nodir wrth fapio'r data ar y cyflenwad yn erbyn data'r Cyfrifiad a'r data ar y galw, yn anghywir a ddim yn adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth gofal plant ar draws y sir. Gan hynny ni ddylid dibynnu arno fel darlun cywir ar gyfer gweithredu'r Cynnig Gofal Plant. Yn ffodus, mae gan y Tîm Gofal Plant wybodaeth weithredol ac 'ar y ddaear' am yr holl leoliadau gofal plant yn y sir ac felly'n gallu egluro unrhyw anghysondeb ac, yn bwysicach na dim, unrhyw 'fylchau' yn y ddarpariaeth sydd, neu sydd efallai ddim yn bodoli. Cyflwynir y wybodaeth yma fel 'ystyriaethau nodedig' yn y ddogfen ar Ddadansoddi'r Bylchau er mwyn adlewyrchu'n gywir a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cwrdd â'i ddyletswydd, o dan Adran 22 Deddf Gofal Plant 2006, i ddarparu digon o ofal plant neu beidio.

Methodoleg

Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd eleni'n adlewyrchu asesiadau CSA blaenorol pryd y holwyd rhieni / gofawyr, plant a chyflogwyr ar draws y sir. Mae'r Tîm Gofal Plant wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Marchnata ac Ymgysylltu gan ddefnyddio templedi gan Lywodraeth Cymru i ddyfeisio arolygon ar-lein.

Ymgynghori gyda rhieni / gofawyr

Drwy ddefnyddio'r templed gan Lywodraeth Cymru aeth y Tîm Marchnata ac Ymgysylltu ati i ddyfeisio arolwg ar-lein a anfonwyd

allan ar draws y sir yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau marchnata:

- Anfonwyd dolen ar-lein at ysgolion fel y gallent ei anfon allan at eu rhieni
- Anfonwyd dolen drwy dudalennau Twitter a Facebook y Cyngor
- Anfonwyd dolen allan drwy dudalennau Dechrau'n Deg y Cyngor
- Cynhyrchwyd taflen (gweler Atodiad 1) a'i dosbarthu ar draws y sir i feddygfeydd, canolfannau cymunedol, lleoliadau gofal plant (a dderbyniodd gopïau caled i rieni oedd yn well ganddynt lenwi holiadur papur), i holl weithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy'r Fewnrwyd a thrwy'r gwasanaeth e-bost 'Bridgenders' a anfonir allan i gyfrif e-bost pob gweithiwr.
- Dosbarthwyd copïau caled a thaflenni i'r lleoliadau Dechrau'n Deg,

Childcare Sufficiency Assessment Form

Name of Local Authority:
Bridgend County Borough Council

Name of responsible officer:
Amy Castle and Beth Davies

Date of Completion:
Please note that the Childcare Sufficiency Assessment must be received by the Welsh Government by 31st March 2017.

a hefyd i holl ganolfannau'r Timau Cymorth Cynnar a'r Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd

- Rhoddwyd taflenni i Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg i'w rhoi i'w rhieni.
- Hysbysebwyd ar Facebook.
- Cynhaliwyd Grwpiau Ffocws gyda:
 - Grŵp Cymorth i Deuluoedd Arbennig, Maesteg
 - Mamau a Phlant Bach Pencoed
 - Ti a Fi Gwdihŵ
 - Mamau a Phlant Bach Eglwys y Drindod, Porthcawl
 - Y Bont
 - Ti a Fi Sarn
 - Clwb Bwydo ar y Fron Pontycymer
 - Bownsio ac Odli Cwm Garw
 - Grŵp Bysedd a Bodiau a Phlant Bach, Coity

Ymgynghori gyda Phlant

Fel gyda'r holiadur i rieni / gofalmwyr, gwnaed yr holiadur plant yn arolwg ar-lein oedd yn hawdd ei ddefnyddio, a hefyd ar gael ar ffônau clyfar a thabledi cyfrifiadurol. Fodd bynnag, yn rhyfeddol profodd y copïau papur i fod yn fwy poblogaidd a gofynnodd y clybiau gofal y tu allan i oriau ysgol am gael llenwi copïau papur. Cynigiwyd cymhelliad o gael eu cynnwys mewn raffl i ennill taleb stryd fawr i'r holl blant wnaeth gwblhau'r arolwg. Roedd hwn yn ddull targedu gwell drwy ganolbwyntio ar blant oedd yn mynychu'r gofal gwyliau ac ar ôl ysgol.

Arolwg Cyflogwyr

Crëwyd arolwg ar-lein ar gyfer cyflogwyr, gan adlewyrchu'r templed gan Lywodraeth Cymru a anfonwyd allan at bob awdurdod i sefydlu pa gymorth gofal plant a gynigir i rieni, fel talebau gofal plant, a / neu pa sialensau y mae cyflogwyr yn teimlo bod y rhieni sy'n gweithio iddynt, a hwythau hefyd fel cyflogwyr rhieni sydd angen gofal plant er mwyn gallu gweithio, yn eu hwynebu. Hysbysebwyd hyn ar Barth Busnes y Cyngor sef gwefan sy'n cael ei rhedeg gan Uned Datblygu Economi'r Cyngor i roi cyngor a chymorth i fusnesau lleol. Gofynnwyd i gyflogwyr roi eu barn am y gofal plant oedd ar gael, a chysylltwyd yn uniongyrchol â'r cyflogwyr mwy yn y sir hefyd, drwy:

Wefan Fforwm Busnes Pen-y-bont
Y Wefan Parth Busnes
E-Newyddion
Cyfryngau Cymdeithasol Fforwm Busnes Pen-y-bont

Yn anffodus, am resymau na allwn eu hegluro, roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn wael iawn a dim ond Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wnaeth ymateb.

Heriau

Mae capasiti'r Tîm Gofal Plant i ddarparu pob agwedd ar yr asesiad CSA, gan gynnwys yr ymgynghori a'r dadansoddi, wedi bod yn her. Y Tîm Gofal Plant yw'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd, felly mae ganddynt gylch gwaith mawr. Gyda'r diffyg cyllid cynyddol, daw'r gallu i gyflawni asesiad CSA cywir a chynhwysfawr yn fwyfwy anodd, yn enwedig wrth ddelio â chymhlethdod y gwaith o ddadansoddi'r data.

Rydym eisoes wedi nodi bod canlyniadau'r ymgynghori yn rhai gwael. Dyma efallai yw'r rhan anoddaf i'w reoli o'r asesiad CSA.

Fel y mae'r Fethodoleg yn ei nodi, dosbarthwyd yr ymgynghoriad â rhieni drwy nifer fawr o wahanol ddulliau a phartneriaid ac roedd yr ymateb yn hynod siomedig.

Gellid tybio bod hyd yr holiadur yn rhwystr i rai oedd â chopi papur, pryd y gallai rhai a lenwodd yr holiadur ar-lein fod wedi stopio hanner ffordd trwodd. Yn ogystal, roedd nifer o ymarferion ymgynghori ychwanegol a ddosbarthwyd ar yr un pryd, gan gynnwys y Cynnig Gofal Plant a cheisiadau eraill gan yr Awdurdod Lleol, oedd efallai wedi cael blaenoriaeth neu wedi drysu defnyddwyr i feddwl bod yr holiaduron rhieni / gofalwyr wedi cael eu llenwi, oherwydd bod yr holiaduron cyhoeddus eraill yn debyg iawn. Ymateb hynod wael a gafodd yr Ymgynghoriad â Chyflogwyr hefyd ac mae'n anodd sefydlu pam, yn wir gallwn ond dyfalu beth oedd y rhesymau.

Mae gallu dadansoddi data'n dilyn ymgynghori a'i droi'n ganlyniadau ystyrlon bob amser yn her. Cyfrifoldeb y Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu yw hyn. Bydd angen didol a dadansoddi'r data o'r ymarferion ymgynghori, yn enwedig y data o Gyfrifiad 2011 a'n data ni ar y cyflenwad yn 2016 a ddaeth drwy'r ffurflenni SASS.

Mae'n arbennig o anodd croesgyfeirio'r wybodaeth gan rieni yn erbyn y data ar y Cyflenwad a nodi unrhyw fylchau, ac oherwydd bod y data SASS yn ddiffygiol, bydd y data a'r bylchau hefyd wedi eu sgiwio.

Bwrw ymlaen gyda'r Cynllun Gweithredu

Mae'r grant Gofal y Tu Allan i Orlau Ysgol yn gwbl hanfodol i weithredu'r Cynllun Gweithredu. Gyda llai o gyllid craidd bob blwyddyn, y Grant Gofal y Tu Allan i Orlau Ysgol yw'r unig grant wedi'i glustnodi sy'n gadael i Dîm Gofal Plant Pen-y-bont roi sylw uniongyrchol i'r bylchau yn y CSA a hefyd i'r pwyntiau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu. Heb y cyllid hwn byddai cyflawni'r canlyniadau sydd mewn golwg yn llawer anoddach.

Y Tîm Gofal Plant, sydd hefyd yn gweithredu fel y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, fyddai'r adran yn arwain ar ddarparu'r Cynllun Gweithredu a'r brif adran yn y Cyngor i fod yn gyfrifol am gefnogi datblygiadau gofal plant yn y dyfodol, yn enwedig sicrhau bod unrhyw fylchau a nodir yn yr asesiad CSA yn cael eu llenwi mor fuan â phosib, a bod lleoliad hefyd yn aros yn gynaliadwy. Arbenigedd y Tîm Gofal Plant mewn datblygu gofal plant, er enghraifft, sy'n sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i gyflawni'r gweithredu sy'n angenrheidiol yng Nghynllun Gweithredu'r CSA. Bydd hyn, ynghyd â rheoli'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, yn sicrhau bod gan rieni ofal plant ar gael iddynt os oes ganddynt waith, neu os ydynt am ddychwelyd i weithio.

Mae cyllid yn hanfodol i gyflawni'r Cynllun Gweithredu, yn enwedig o ystyried y Cynnig Gofal Plant fydd yn cael ei gyflwyno rhwng yr asesiad CSA hwn a'r un nesaf mewn pum mlynedd. Rhaid hefyd sicrhau capasiti staffio llawn fel bod y gweithredu sydd mewn golwg yn digwydd o fewn yr amserlen. Mae hyn yn allweddol bwysig o ran archwilio gwasanaethau'n barod ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, sy'n hollbwysig i lwyddiant y cynllun. Bwriedir adolygu'r Cynllun Gweithredu bob blwyddyn ond bydd cyfeiriad cyson ato i sicrhau bod y gweithredu'n cael ei ddarparu.

2. Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Dylai'r adran hon ddangos i ba raddau y cafodd y rhanddeiliaid, fel yr ystyriwyd yn briodol, ac a restrir yn Atodlen 2 y Canllawiau Statudol, eu cynnwys yn y broses o gyflawni'r Asesiad ac o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu. Dylai ddisgrifio sut y casglodd yr Awdurdod Lleol farn y rhanddeiliaid a sut y cafodd y wybodaeth ei dadansoddi a'i defnyddio i oleuo cynlluniau i'r dyfodol.

Os holwyd unrhyw randdeiliaid ychwanegol wrth baratoi'r Asesiad a'r Cynllun Gweithredu, bydd angen cyfeirio atynt yma.

- Bwrdd Diogelu Plant – anfonwyd e-bost at y Bwrdd ond yn anffodus ni chafwyd unrhyw ymateb.

- Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg – mae aelod o'r Tîm Gofal Plant yn eistedd ar y WESP, a Rheolwr y Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant hefyd. Cynrychiolaeth solid ar y grŵp hwn:

- Anfonwyd cwestiwn at y cyswllt WESP ond ni dderbyniwyd ymateb.
- Trafodwyd yr asesiad CSA, o ran y blaenoriaethau, mewn cyfarfod WESP.
- Anogwyd aelod o WESP i gylchredeg yr asesiad ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Ysgol Gyfun Llangynwyd, Mudiad, Rhag etc.

- Grŵp Monitro Chwarae – Ymgynghorwyd â'r Tîm Chwarae ar gwblhau'r ffurflen SASS ond, ar wahân i'r galw am y cynllun chwarae, nid yw'r tîm chwarae'n cynnig unrhyw ddarpariaeth Awdurdod Lleol arall.

•

Dylid hefyd cyfeirio at ba ymgysylltu sydd wedi digwydd gyda:

- Adrannau perthnasol yr Awdurdod Lleol – bu'r Tîm Marchnata yn cefnogi'r ymgynghoriad gydag agweddau ar y CSA, ac yn cefnogi'r Tîm Gofal Plant gydag agweddau ar yr Asesiad.
- Mae Dechrau'n Deg yn rhan o'r Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a bu'r Tîm Gofal Plant yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y wybodaeth am yr ymgynghoriad yn cael ei dosbarthu'n eang, er enghraifft drwy'r Ymwelwyr Iechyd a'r Bydwragedd etc. Mae hyn hefyd yn wir am y Tîm Cymorth Cynnar a fu'n dosbarthu i Sefydliadau Partner / Ymbarél – anfonwyd yr holiaduron at Cwlwm a derbyniwyd ymateb gan Glybiau Plant Cymru, Pacey, WPPA a'r NDNA.
- AGGCC – Cafodd ffurflenni SASS eu creu, casglu ynghyd a'u hanfon i Ben-y-bont gan AGGCC, gan lwyr oleuo'r data ar y Cyflenwad.
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – y Tîm Gofal Plant yw'r gwasanaeth FIS hefyd felly mae'r gwaith yn digwydd law yn llaw ynghyd â gweithio mewn partneriaeth ar bob blaenoriaeth.

3. Yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiad o Anghenion Lles Lleol

Dylai'r adran hon nodi i ba raddau wnaeth yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ystyried a goleuo'r Asesiad o Anghenion Lles Lleol a wnaed gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Wrth weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (PSB) daeth yn amlwg fod Asesiad Lles Pen-y-bont yn dal i fod ar ffurf drafft ac felly nad oedd ar gael. Nid oedd modd cael unrhyw wybodaeth i oleuo'r CSA. O ran yr asesiad CSA yn goleuo'r Asesiad o Anghenion Lles Lleol, anfonwyd asesiad CAS 2014 a'r Adolygiad diweddaraf i'r bartneriaeth i sicrhau bod y wybodaeth yn y dogfennau wedi ei hadlewyrchu yn asesiad y PSB. Oherwydd mai dogfen 'ddrafft' oedd hi, nid oedd yn bosib i ni adolygu effaith y CSA ar y canfyddiadau. Yn anffodus, nid oedd amseriad amrywiol gamau'r ddau asesiad yn cyd-fynd er mwyn gallu rhannu unrhyw wybodaeth yn effeithiol.

4. Poblogaeth

Dylai'r adran hon gynnwys proffil o'r ardal ar draws y fwrdeistref, gan gynnwys demograffeg. Yn benodol ac yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Asesiad gynnwys manylion am:

- Amcan-ffigurau poblogaeth ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol
- Y prif ffactorau a thueddiadau sy'n debygol o effeithio ar y ffigurau hynny

Dylid casglu'r wybodaeth ddemograffig o'r wybodaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r Asesiad o Anghenion Lles Lleol.

Gallai'r Awdurdodau Lleol hefyd efallai ystyried cynnwys y canlynol yn eu hasesiadau:

- Dengys y ffigurau poblogaeth fod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar y cyfan, yn cynyddu'n fwy na'r ganran genedlaethol ac mae hyn yn wir am bob un o'r grwpiau oed fel y gwelwn o'r tabl isod.

Oed	Pen-y-bont ar Ogwr			Cymru		
	2001	2011	% newid	2001	2011	% newid

Pawb	128,647	139,178	7.6	2,903,085	3,063,456	5.2
0-17 oed (% o'r holl boblogaeth)	29,590 (23%)	28,846 (20.7%)	-2.6	662,389 (22.8%)	633,407 (20.7%)	-4.6
0-2 oed	4,362	4,633	5.8	97,384	107,615	9.5
3-4 oed	3,252	3,094	-5.1	70,519	70,686	0.2
5-7 oed	4,723	4,620	-2.2	108,149	99,429	-8.8
8-10 oed	5,141	4,561	-12.7	116,749	97,042	-20.3
11-14 oed	7,076	6,767	-4.6	156,403	144,356	-8.3
15-17 oed	5,036	5,171	2.6	113,185	114,279	1.0

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, ONS, Hawlfraint y Goron

- Dengys yr amcan-ffigurau poblogaeth (mewn miloedd) ar gyfer y fwrdeistref sirol gynnydd cyson sy'n adlewyrchu tuedd debyg i'r amcan-ffigurau ar gyfer y wlad i gyd dros y 13 mlynedd nesaf.

	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025	2026	2027	2028	2029	2030
Cymru	3,116	3,125	3,133	3,142	3,151	3,160	3,169	3,177	3,185	3,193	3,201	3,208	3,215	3,221
Pen-y-bont ar Ogwr	142	143	143	144	144	144	145	145	146	146	146	147	147	147

- Rhwng 2011 a 2014 roedd gostyngiad yng nghyfradd y genedigaethau byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ond mae cynnydd wedi bod yn 2015.

	2011	2012	2013	2014	2015
Cyfradd genedigaethau byw (Pen-y-bont)	1,728	1,624	1,540	1,482	1,503
- Dengys y wybodaeth yn y tabl isod nifer y plant gydag anableddau yn y fwrdeistref sirol. - Dywedodd gyfanswm o 69 o blant (rhwng 16-24 oed) fod eu gweithgareddau wedi eu cyfyngu i raddau oherwydd eu hanabledd, gyda dim ond un plentyn (0-15 oed) wedi'i effeithio yn yr un modd. Nid yw'r rhan fwyaf (415) o bobl ifanc ar y gofrestr yn canfod bod eu hanabledd yn cyfyngu arnynt o ddydd i ddydd.					
	Pob categori: Problem iechyd neu anabledd hirdymor	Yn cyfyngu llawer iawn ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd	Yn cyfyngu rhywfaint ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd	Ddim yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd	
Pob categori: Y sefyllfa mewn sefydliadau cymunedol yn ôl oed	2,336	816	335	1,185	
Preswyl: Cyfanswm	2,181	748	321	1,112	
Preswyl: 0-15 oed	5	1	0	4	
Preswyl: 16-24 oed	484	29	40	415	
https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/DC3304EWLA/view/1132462416?rows=position_age&cols=c_disability					
Nifer y cartrefi mewn gwaith gyda phlant dibynnol					
	Pob categori: Plant dibynnol yn y teulu	Un plentyn dibynnol yn y teulu	Dau blentyn dibynnol yn y teulu	Tri neu fwy o blant dibynnol yn y teulu	
Pob categori: Gweithgarwch economaidd	29,020	13,692	11,330	3,998	

Economaidd weithgar: Cyfanswm	23,499	11,196	9,521	2,782
Economaidd weithgar: Mewn gwaith: Cyfanswm	22,166	10,522	9,079	2,565
Economaidd weithgar: Mewn gwaith: Gweithiwr: Cyfanswm	19,660	9,448	7,986	2,226
Economaidd weithgar: Mewn gwaith: Gweithiwr: Rhan amser (gan gynnwys myfyrwyr llawn amser)	6,692	3,043	2,849	800
Economaidd weithgar: Mewn gwaith: Gweithiwr: Llawn amser (gan gynnwys myfyrwyr llawn amser)	12,968	6,405	5,137	1,426
Economaidd weithgar: Mewn gwaith: Hunan-gyflogedig: Cyfanswm	2,506	1,074	1,093	339
Economaidd weithgar: Mewn gwaith: Hunan-gyflogedig: Rhan amser (gan gynnwys myfyrwyr llawn amser)	729	286	328	115
Economaidd weithgar: Mewn gwaith: Hunan-gyflogedig: Llawn amser (gan gynnwys myfyrwyr llawn amser)	1,777	788	765	224
Economaidd weithgar: Di-waith (gan gynnwys myfyrwyr llawn amser)	1,333	674	442	217
Economaidd anweithgar: Cyfanswm	5,521	2,496	1,809	1,216
Economaidd anweithgar: Wedi ymddeol	305	248	45	12
Economaidd anweithgar: Myfyriwr (gan gynnwys myfyrwyr llawn amser)	327	149	115	63
Economaidd anweithgar: Yn gofalu am y cartref neu'r teulu	2,703	952	972	779

Economaidd anweithgar: Sâl tymor hir neu anabl	1,614	858	503	253
Economaidd anweithgar: Arall	572	289	174	109

- Gwyn yw'r grŵp ethnig mwyaf yn y fwrdeistref sirol. Y grŵp lleiafrif ethnig gyda'r boblogaeth leiaf yn yr ardal yw Du / Affricanaidd / Caribïaidd: Arall (49) tra mai Asiaidd / Prydeinig: Arall (624) yw'r grŵp lleiafrif ethnig mwyaf.

Grŵp Ethnig	2011
Pob categori: Grŵp ethnig	138,379
Gwyn: Cymro neu Gymraes/Sais neu Saesnes/Albanwr(wraig)/ Gwyddel neu Wyddeles (GI)/Prydeiniwr	132,716
Gwyn: Gwyddel neu Wyddeles	470
Gwyn: Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig	62
Gwyn: Gwyn Arall	1,831
Grŵp ethnig lluosog / cymysg: Gwyn a Du Caribïaidd	329
Grŵp ethnig lluosog / cymysg: Gwyn a Du Affricanaidd	135
Grŵp ethnig lluosog / cymysg: Gwyn ac Asiaidd	272
Grŵp ethnig lluosog / cymysg: Cymysg Arall	266
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig: Indiaidd	422
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig: Pacistanaidd	146
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig: Bangladeshaidd	154
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig: Tsieineaidd	377

Asiaidd / Asiaidd Prydeinig: Asiaidd Arall	624
Du Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig: Affricanaidd	155
Du Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig: Caribïaidd	128
Du Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig: Du Arall	49
Grŵp ethnig Arall: Cefndir Arabaidd	86
Grŵp ethnig Arall: Unrhyw grŵp ethnig arall	157

- Cofnodir cyfanswm o 17,624 o deuluoedd unig riant yn y fwrdeistref sirol. Mae gan y set fwyaf o deuluoedd ddau neu fwy o blant dibynnol yn y cartref.

Teuluoedd unig riant gyda phlant dibynnol	#
Un teulu'n unig: Unig riant: Cyfanswm	17,624
Un teulu'n unig: Unig riant: Un plentyn dibynnol	5,556
Un teulu'n unig: Unig riant: Dau neu fwy o blant dibynnol	6,747

<https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/submit.asp?forward=yes&menuopt=201&subcomp=>

Mae 2,922 o gartrefi a ddiffinnir fel teuluoedd di-waith gyda phlant dibynnol, sef cyfanswm o 17,226 o blant o bob oed.

- Nifer y teuluoedd di-waith gyda phlant dibynnol

Nifer y teuluoedd di-waith gyda phlant dibynnol	#
Yr holl gartrefi	58,515
Nifer yr oedolion mewn gwaith yn y cartref	22,591

Gyda phlant dibynnol	2,922
Heb blant dibynnol	19,669
Plant dibynnol yn y cartref: Pob oed	17,226
0-4 oed	6,266
Un person yn y cartref gyda phroblem iechyd hirdymor neu anabledd	18,509
Gyda phlant dibynnol	3,391
Heb blant dibynnol	15,118

<https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/KS106EW/view/1946157395?cols=measures>

- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol yn isel ar 9.7%, sef hanner y ffigur sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru.

	Yn gallu siarad Cymraeg	Ddim yn gallu siarad Cymraeg	Canran sy'n gallu siarad Cymraeg	Cyfanswm
Cymru	562,016	2,393,825	19.0	2,955,841
Pen-y-bont ar Ogwr	13,103	121,442	9.7	134,545

- Mae nifer y plant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledd wedi gostwng yn gyson yn y fwrdeistref sirol ers 2001-02 hyd at heddiw. Ni ellir dweud yr un peth am Gymru gyfan oherwydd cynyddu'n bennaf wnaeth y ffigurau rhwng 2001-02 a 2014-15 ond erbyn hyn maen nhw'n gostwng eto.

	Nifer y plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd (16 neu iau) ym Mhen-y-bont	Nifer y plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd (16 neu iau) yng Nghymru
2001 – 02	636	12,312

2002 – 03	618	12,930
2003 – 04	621	13,156
2004 – 05	643	13,489
2005 – 06	570	13,473
2006 – 07	577	13,933
2007 – 08	531	14,137
2008 – 09	541	14,068
2010 – 11	544	14,771
2011 – 12	553	14,423
2012 – 13	565	14,701
2013 – 14	556	15,029
2014 – 15	526	15,297
2015 – 16	527	15,010
	494	14,729
5. Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd – o'r ffurflenni SASS		

5.1 Nifer y Darparwyr Gofal Plant a'r Math o Wasanaethau (Cofrestredig ac Anghofrestredig / Cymeradwy)

Math o Ofal Plant	Cofrestredig	Anghofrestredig	Gwasanaethau Gofal Plant a Gynigir	Cofrestredig	Anghofrestredig
-------------------	--------------	-----------------	------------------------------------	--------------	-----------------

		ig / Cymeradwy			/ Cymeradwy
Gwarchodwr Plant	46		Gofal drwy'r dydd drwy'r flwyddyn	39	
			Gofal hanner diwrnod drwy'r flwyddyn	29	
			Cyn ysgol	39	
			Ar ôl ysgol	39	
			Gofal Cofleidiol	19	
			Dros y gwyliau	36	
			Arall	0	
Gofal Dydd					
Gofal Drwy'r Dydd	24		Meithrinfa drwy'r dydd drwy'r flwyddyn	23	
			Meithrinfa hanner diwrnod drwy'r flwyddyn	12	
			Cyn ysgol	11	
			Cylch Chwarae Bore / Cylch Meithrin	2	
			Cylch Chwarae Prynawn / Cylch Meithrin	1	
			Ar ôl ysgol	13	
			Gofal Cofleidiol	10	
			Cinio	11	
			Dros y gwyliau	16	
			Crèche	1	
			Arall	0	
Gofal Dydd Sesiynol	25		Cylch Chwarae Bore / Cylch Meithrin	xx	
			Cylch Chwarae Prynawn / Cylch Meithrin	xx	
			Gofal Cofleidiol	0	
			Cinio	1	
			Arall	2	

Crèche	0		Gwasanaeth Diwrnod Llawn	0	
			Gwasanaeth Bore	0	
			Gwasanaeth Prynhawn	0	
			Dros y gwyliau	0	
			Arall	0	
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	8		Cyn ysgol	0	
			Ar ôl ysgol	6	
			Dros y gwyliau	0	
			Sesiynau Cynllun Chwarae	0	
			Arall	0	
Chwarae Agored	0		Cyn ysgol	0	
			Ar ôl ysgol	0	
			Dros y gwyliau	0	
			Sesiynau Cynllun Chwarae	0	
			Arall	0	
Nani	0		Gofal drwy'r dydd drwy'r flwyddyn	0	
			Gofal hanner diwrnod drwy'r flwyddyn	0	
			Cyn ysgol	0	
			Ar ôl ysgol	0	
			Gofal cofleidiol rhan amser mewn lleoliad Addysg Gynnar, e.e. cylch chwarae neu feithrinfa ysgol	0	
			Dros wyliau'r ysgol	0	
			Arall	0	
CYFANSWM	103				


Dosbarthiad Daearyddol y Darparwyr a'r Gwasanaethau Gofal Plant (Cofrestredig ac Wedi eu Heithrio / Cymeradwy)

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys y data o'r wybodaeth gan y gwasanaeth FIS ac AGGCC – nid o'r SASS. Mae felly'n ddarlun cywir o ddarparwyr a gwasanaethau gofal plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

	CF31	CF32	CF33	CF34	CF35	CF36	CF39	Cyfanswm
Gwarchodwyr Plant	39	13	7	4	16	5	0	84
Meithrinfeydd Dydd	9	2	2	4	1	3	1	22
Cylchoedd Chwarae	4	4	1	2	3	0	0	14
Cylch Meithrin	2	2	1	3	1	1	0	10
Dechrau'n Deg	1	3	1	5	1	0	0	11
Clybiau y Tu Allan i Orlau Ysgol	5	1	1	5	1	2	0	15
Clybiau Anghofrestredig y Tu Allan i Orlau Ysgol	5	1	2	0	1	0	0	9
Meithrinfeydd yn cynnig Clwb y Tu Allan i Orlau Ysgol	6	1	1	5	1	3	0	17

Nifer y lleoedd cofrestredig

	CF31	CF32	CF33	CF34	CF35	CF36	CF39	Cyfanswm
Gwarchodwyr Plant	295	89	43	25	103	32	0	587
Meithrinfeydd Dydd	605	49	115	124	63	125	16	1097
Cylchoedd Chwarae	122	104	28	44	94	0	0	392
Cylch Meithrin	46	44	30	64	36	20	0	240
Dechrau'n Deg	16	65	20	67	15	0	0	183
Clybiau Gofal Cyn/Ar Ôl Ysgol	173	20	40	0	32	87	0	352
Clybiau Anghofrestredig Gofal Cyn/Ar Ôl Ysgol								0
Meithrinfeydd yn cynnig Clwb Gofal Cyn/Ar Ôl Ysgol								0



5.2. Lleoedd Gofal Plant – Cyflenwad a Galw yn ôl y Math o Ofal Plant

Darparwyr Cofrestredig – Yn Ystod y Tymor

Math o Ofal Plant	Lleoedd yn ôl cofrestriadau	Yn Ystod y Tymor				
		Uchafswm capasiti lleoedd gofal plant ar gael yn ddyddiol	Nifer y plant yn defnyddio'r gwasanaeth	Nifer y lleoedd gwag	Nifer y plant ar restr aros	Nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen
Gwarchodwr Plant	343	601	347	301	8	355
Gofal Dydd						
Meithrinfa Drwy'r Dydd	1168	2492	1634	1820	17	1651
Gofal Dydd Sesiynol	578	745	725	284	99	824
Crèche	0	0	0	0	0	0

Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	296	275	405	318	14	299
Chwarae Agored	0	0	0	0	0	0
Nani	0	0	0	0	0	0

Darparwyr Cymeradwy ac Eithriedig – Yn Ystod y Tymor

Yn ogystal â'r data uchod mae hefyd 12 clwb ar ôl ysgol (AOY) anghofrestredig a dau gylch chwarae anghofrestredig yn ystod y tymor.

Math o Ddarpariaeth	Amseroedd Agor	Oed y Plant	Darpariaeth Gymraeg neu Saesneg
AOY	3.20pm - 5.19pm	3- 11 oed	Saesneg
Clwb AOY	3.20pm - 5.19pm	3-11 oed	Saesneg
Clwb AOY	3.20pm - 5.20pm	3-11 oed	Cymraeg
Clwb AOY	3.30pm -5.29pm	3-11 oed	Saesneg
Clwb AOY	3.30pm - 5.29pm	3-11 oed	Saesneg
Clwb AOY	3.20pm -5.20pm	3-11 oed	Saesneg
Clwb AOY	3.15pm -5.15pm	3-11 oed	Saesneg
Clwb AOY	3.20pm -5.30pm	3-11 oed	Saesneg
Cylch Chwarae	9.30am - 11.25am	2- 3 oed	Saesneg
Cylch Chwarae	9.15am - 11.15am	2-3 oed	Saesneg
Crèche			Saesneg
Clwb AOY /Clwb Gwyliau	3.30pm - 5.00pm	3-12 oed	Saesneg

Clwb AOY	3.15pm - 5.15pm	3-11 oed	Saesneg
Clwb AOY	3.30pm - 5.30pm	3-11 oed	Saesneg
Clwb AOY	3.15pm - 5.15pm	3-11 oed	Saesneg
Clwb AOY	3.15pm - 5.15pm	3-11 oed	Saesneg

Darpariaeth Gofrestredig – Gwyliau'r Ysgol

Math o Ofal Plant	Lleoedd yn ôl cofrestriadau	Yn Ystod y Tymor				
		Uchafswm capasiti lleoedd gofal plant ar gael yn ddyddiol	Nifer y plant yn defnyddio'r gwasanaeth	Nifer y lleoedd gwag	Nifer y plant ar restr aros	Nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen
Gwarchodwr Plant	343	266	911	41	0	911
Gofal Dydd						
Meithrinfa Drwy'r Dydd	1168	790	2276	172	0	2276
Gofal Dydd Sesiynol	578	26	116	0	0	116
Crèche	0	0	0	0	0	0
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol	296	148	453	182	0	453
Chwarae Agored	0	0	0	0	0	0
Nani	0	0	0	0	0	0

Math o Ofal Plant	Cofrestredig	Anghofrestredig / Cymeradwy	Gwasanaethau Gofal Plant a Gynigir	Cofrestredig	Anghofrestredig / Cymeradwy
Gwarchodwr Plant	46		Gofal drwy'r dydd drwy'r flwyddyn	39	
			Gofal hanner diwrnod drwy'r flwyddyn	29	
			Cyn ysgol	39	
			Ar ôl ysgol	39	
			Gofal Cofleidiol	19	
			Dros y gwyliau	36	
			Arall	0	
Gofal Dydd					
Gofal Drwy'r Dydd	24		Meithrinfa drwy'r dydd drwy'r flwyddyn	23	
			Meithrinfa hanner diwrnod drwy'r flwyddyn	12	
			Cyn ysgol	11	
			Cylch Chwarae Bore / Cylch Meithrin	2	
			Cylch Chwarae Prynawn / Cylch Meithrin	1	
			Ar ôl ysgol	13	
			Gofal Cofleidiol	10	
			Cinio	11	
			Dros y gwyliau	16	
			Crèche	1	
			Arall	0	
Gofal Dydd Sesiynol	25		Cylch Chwarae Bore / Cylch Meithrin	xx	
			Cylch Chwarae Prynawn / Cylch Meithrin	xx	
			Gofal Cofleidiol	0	
			Cinio	1	
			Arall	2	

Darpariaeth Eithriedig a Chymeradwy – Gwyliau'r Ysgol

Clwb AOY / Gwyliau	KPC	3.30pm - 5.00pm	Chwarae Agored dros y gwyliau	3-12 oed	Saesneg
-----------------------	-----	-----------------	----------------------------------	----------	---------

Math o Ddarpariaeth	Oed y Plant	Darpariaeth Gymraeg neu Saesneg	Cost	Faint o blant sy'n defnyddio'r ddarpariaeth
Chwarae Agored (Cynllun Chwarae'r Cyngor)	8-12 oed	Saesneg		30
Chwarae Agored (Cynllun Chwarae'r Cyngor)	8-12 oed	Saesneg		47
Chwarae Agored (Cynllun Chwarae'r Cyngor)	8-12 oed	Saesneg		44
Chwarae Agored	8-12 oed	Saesneg	£1	
Chwarae Agored (Cynllun Chwarae'r Cyngor)	8-12 oed	Saesneg		15
Chwarae Agored (Cynllun Chwarae'r Cyngor)	8-12 oed	Saesneg		59

Chwarae Agored (Cynllun Chwarae)	8-12 oed	Saesneg		13
Chwarae Agored	8-12 oed	Saesneg		26

Yn ogystal â'r uchod, mae gwybodaeth leol yn dweud wrthym fod Halo (Canolfan Chwaraeon) yn rhedeg sesiynau chwarae dros y gwyliau i blant 8+ oed a bod y rhain wedi eu heithrio oherwydd y gweithgareddau sy'n cael eu cynnig. Roeddent yn cael eu cynnal yn y rhan fwyaf o ganolfannau chwaraeon ar draws y fwrdeistref, yn enwedig dros wyliau'r haf. Er nad yw'r rhain ychwaith yn ofal plant cofrestredig, mae rhieni'n eu defnyddio yn lle gofal plant. Darpariaeth 'chwarae agored' y maen nhw wedi'i gynnig.

Gwyddom hefyd fod Sêr Chwaraeon yn cynnig gwasanaethau ar draws y fwrdeistref ac wedi bod yn rhedeg mewn ysgolion cyfun i blant 3-11 oed. Eto mae'n eithriedig oherwydd hysbysebu fel ysgol chwaraeon, ond mae rhieni wedi bod yn ei ddefnyddio fel gwasanaeth gofal plant. Nid yw'n cael ei ddefnyddio fel chwarae agored.

6. Y Cyflenwad Gofal Plant

Dosbarthiad Daearyddol Lleodedd Gofal Plant yn ôl y Math o Ofal Plant – Cyflenwad a Galw – Yn Ystod y Tymor

Y GALW

Saesneg

Math o ofal plant	CF31	CF32	CF33	CF34	CF35	CF36
Gwarchodwr Plant	1				2	
Gofal Drwy'r Dydd	4	2			1	
Gofal Dydd					1	

Sesiynol						
Crèches	2					
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol					1	1
Chwarae Agored					1	
Nani						
Teulu a / neu ffrindiau	2	1			3	

Cymraeg a Saesneg

Math o Ofal Plant	CF31	CF32	CF33	CF34	CF35	CF36
Gwarchodwr Plant						
Gofal Drwy'r Dydd						
Gofal Dydd Sesiynol						
Crèches						
Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol		1				
Chwarae Agored						
Nani						
Teulu a / neu ffrindiau						

Cafwyd hefyd un cais i gael gofal drwy'r dydd yn CF34 mewn iaith heblaw Saesneg neu Gymraeg. Nid oedd unrhyw gais am ofal plant ar ôl 6pm.

Dosbarthiad Daearyddol Lleoedd Gofal Plant yn ôl y Math o Ofal Plant – Cyflenwad a Galw – Gwyliau'r Ysgol

Ni ofynnwyd am unrhyw ofal plant dros y gwyliau yn Gymraeg neu yn y tu allan i'r oriau arferol.

Math o Ofal Plant	CF31	CF35	CF36	Y tu allan i'r fwrdeistref
Gwarchodwr Plant	1	1		1
Gofal Dydd		2		
Crèches	1			
Gofal y Tu Allan i Orlau Ysgol		1	1	1
Chwarae Agored		1		

6.1. Gwarchodwr Plant

6.1.1. Dadansoddiad o'r Cyflenwad Gofal Plant

Dylid crynhoi canfyddiadau allweddol yr ymgynghori gyda darparwyr, drwy ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 1. Dylid ystyried y pethau canlynol gan gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith:

- Ystod y gwasanaethau a ddarperir
- Nifer a'r math o leoedd plant a ddefnyddir (llawn a rhan amser, ad-hoc)
- Nifer y lleoedd a ddefnyddir gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd
- Nifer y lleoedd iaith Gymraeg a ddefnyddir
- Rhestr aros a lleoedd gwag
- Amseroedd agor gan gynnwys faint sy'n cynnig oriau gofal hyblyg
- Ystod hyd y sesiynau
- Ystod oed y plant
- Ystod y ffioedd

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar ddata SASS felly rhaid ei thrin gyda phwyll o ran ffeithiau a chywirdeb.

Ymatebodd 46 o warchodwyr plant i'r ffurflenni SASS a dywed data'r gwasanaeth FIS (data gan AGGCC) wrthym fod 86 o warchodwyr plant cofrestredig ym Mhen-y-bont. Gweler y tabl ychwanegol gyda gwybodaeth gywir am faint o warchodwyr plant sydd ym mhob ardal.

Mae'r wybodaeth a gawsom felly'n seiliedig ar gyfradd ymateb o ddim ond 50% a'r data'n anghywir a diffygiol iawn.

Ardal 1 (CF31)

Mae 22 o Warchodwyr Plant yn yr ardal hon. Mae un yn cynnig Saesneg gyda pheth Cymraeg ac mae 21 yn cynnig gwasanaeth drwy'r Saesneg yn unig.

Mae rhwng 14-18 ohonynt yn cynnig lleoedd llawn a rhan amser, gan gynnwys clybiau cyn ac ar ôl ysgol. Ychydig iawn, dim ond naw, sy'n cynnig gwasanaeth cofleidiol.

Mae mwy o blant yn mynychu'n rhan amser yn ystod y tymor a'r gwyliau. Yn yr ardal hon y mae'r nifer fwyaf o leoedd gwag gan Warchodwyr Plant. Dyma'r unig ardal lle mae rhestr aros fach iawn yn ystod y tymor; nid oes unrhyw restr aros ar gyfer y gwyliau. Plant 2-3 oed a 5-11 oed yw'r ystod oed mwyaf sy'n derbyn gofal. Cynigir gwasanaeth gwarchod plant rhwng 7am-6pm yn ystod y tymor a'r gwyliau. Mae peth darpariaeth ar gael yn ystod pob gwyliau. Er mai ychydig iawn sydd ar gael yn ystod 6 wythnos gwyliau'r haf. Mae peth darpariaeth cyn 8am ac ychydig iawn ar ôl 6pm. Nid oes unrhyw ddarpariaeth dros nos nac yn ystod y penwythnos. Mae'r costau'n amrywio rhwng £3.50 yr awr a £40 y dydd. Mae un gwarchodwr plant yn codi tâl ychwanegol am wasanaeth fel Clytiau etc, ac adroddwyd bod tri o blant ag anghenion ADY sy'n derbyn cymorth yn yr ardal ar hyn o bryd.

Ardal 2 (CF32 a CF39)

Mae naw o warchodwyr plant yn yr ardal hon, mae un yn cynnig Saesneg a pheth Cymraeg ac mae wyth yn cynnig drwy'r Saesneg yn unig. Mae'r rhan fwyaf yn cynnig gofal drwy'r dydd, gofal hanner diwrnod, clwb cyn / ar ôl ysgol a thros y gwyliau. Y gwasanaeth isaf sy'n cael ei gynnig yw gofal cofleidiol. Fodd bynnag oherwydd bod y rhan fwyaf yn cynnig lle rhan amser, gallent fod wedi camddeall y cwestiynau oherwydd byddai gofal cofleidiol yn rhan amser. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynychu'r gwasanaeth clwb cyn neu ar ôl ysgol. Mae nifer dda'n defnyddio'r gwasanaeth yn ystod holl wyliau'r ysgol a nifer gyfartal bron yn mynychu'n llawn a rhan amser. Roedd 49 lle gwag yn yr ardal hon a'r rhan fwyaf ar gyfer y gwyliau. Mae tri o blant ar y rhestr aros yn ystod y tymor a dim rhestr aros ar gyfer y gwyliau. Plant 2-3 oed a 5-11 oed yw'r grwpiau oed mwyaf sy'n mynychu. Dros wyliau'r ysgol, plant 5-7 oed yw'r grŵp mwyaf sy'n mynychu. Mae gwarchod plant ar gael rhwng 7.30am-7pm o ddydd Llun tan ddydd Mercher a rhwng 7.30am-6pm ar ddydd Iau a Gwener yn ystod y tymor. Dros y gwyliau mae'r gwasanaeth yn amrywio rhwng 7am-5pm ac mae gwasanaeth hefyd dros y gwyliau. Mae peth gwasanaeth cyn 8am ac ar ôl 6pm; nid oes unrhyw wasanaeth dros nos nac ar y penwythnos.

Mae prisiau'n amrywio rhwng £3.20 yr awr a £45 y dydd. Mae un gwarchodwr plant yn codi tâl ychwanegol am bethau fel Clytiau etc, ac mae gan dri o blant sy'n derbyn cymorth yn yr ardal anghenion ADY ar hyn o bryd.

Ardal 3 (CF33)

Mae pedwar gwarchodwr plant; maen nhw'n cynnig gwasanaeth drwy'r Saesneg yn unig. Cynigir gwasanaeth drwy'r dydd, hanner diwrnod, cyn ac ar ôl ysgol gyda dim ond un gwarchodwr yn dweud eu bod yn cynnig gofal cofleidiol. Mae'r rhan fwyaf o'r lleoedd yn cael eu cymryd gan y clwb cyn ac ar ôl ysgol. Mae mwy o blant yn mynychu'n llawn na rhan amser yn yr ardal hon yn ystod y tymor. Mae peth darpariaeth ar gael yn ystod pob gwyliau a mwy o blant yn mynychu'n rhan amser. Adroddwyd bod naw lle gwag yn yr ardal hon a dim rhestr aros. Mae'r ddarpariaeth ar gael rhwng 7am-6pm yn ystod y tymor a'r gwyliau. Mae prisiau'n amrywio rhwng £4.30 yr awr a £35 y dydd. Ni chyflwynwyd unrhyw ddata ar ystodau oed y plant sy'n derbyn gofal. Ni chodir yn ychwanegol am glytiau etc gan neb, ac mae gan ddau blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ardal 4 (CF34)

Mae 2 warchodwr plant yn yr ardal hon a rhyngddynt maen nhw'n cynnig yr ystod lawn o wasanaethau. Mae gwasanaeth ar gael dros wyliau'r haf yn unig, gyda 14 lle gwag. Nid oes rhestr aros yn ystod y tymor na'r gwyliau. Ni roddwyd data ar gyfer oriau agor yn yr ardal a rhoddwyd data anghyson ar wyliau'r ysgol, yn enwedig gwyliau'r Nadolig. Adroddwyd nad oes neb yn cynnig gwasanaeth dros y Nadolig, ond eto mae un gwarchodwr plant ar agor am wythnos. Nid oes darpariaeth cyn 8am nac ar ôl 6pm. Mae prisiau'n amrywio rhwng £8.75 am y clwb ar ôl ysgol a £49 am ofal drwy'r dydd. Ni chynigir unrhyw ddisgownt i frawd neu chwaer ac nid oes unrhyw un yn codi tâl am glytiau etc. Ni adroddwyd bod gan unrhyw blant yn eu gofal anghenion ADY ar hyn o bryd.

Ardal 5 (CF35)

Mae saith o warchodwyr plant yn yr ardal hon gan ddarparu'r holl wasanaethau yn y sector. Mae un gwarchodwr yn cynnig gwasanaeth Saesneg a gofal drwy'r dydd a chyn ysgol yw'r gofal a ddefnyddir fwyaf. Mae tua'r un faint o blant yn defnyddio'r lleoedd hyn yn llawn amser ag yn rhan amser yn ystod y tymor. Dros wyliau'r ysgol mae mwy o blant yn mynychu'n rhan amser. Adroddwyd bod 46 lle gwag yn yr ardal, y nifer fwyaf gan wasanaethau clwb cyn ac ar ôl ysgol drwy'r Saesneg a chan rai lleoliadau dwyieithog. Nid oes unrhyw restr aros naill ai am wasanaeth yn ystod y tymor na thros y gwyliau. Yn ystod y tymor plant rhwng 19 mis a 2 oed a'r grŵp 5-11 oed yw'r ystod oed fwyaf. Dros wyliau'r ysgol plant 5-7 oed yw'r grŵp oed mwyaf dros wyliau'r ysgol. Mae'r gwasanaeth ar gael rhwng 7.30am a 17.30pm yn ystod y tymor a rhwng 7.30am a 18.00 yn ystod y gwyliau. Cynigir gwasanaeth drwy gydol pob gwyliau'r ysgol. Mae peth gofal plant ar gael cyn 8am yn ystod y tymor a'r gwyliau ysgol. Mae prisiau'n amrywio rhwng £3.50 yr awr a £38 drwy'r dydd. Mae un gwarchodwr plant yn codi'n ychwanegol am glytiau etc. Adroddir bod gan un plentyn anghenion ADY.

Ardal 6 (CF36)

Mae dau warchodwr plant yn yr ardal hon, y ddwy'n cynnig gofal drwy'r dydd ac yn cynnig ystod o wasanaethau eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r lleoedd yn cael eu cymryd gan sesiynau cyn ac ar ôl ysgol, gyda'r rhan fwyaf yn mynychu'n rhan ac nid llawn amser. Mae gwasanaeth ar gael dros wyliau'r haf ond nid yn ystod y gwyliau eraill. Mae 20 lle gwag yn yr ardal hon, a'r rhan fwyaf gan y gwasanaeth clwb cyn ac ar ôl ysgol. Nid oes unrhyw restr aros naill ai am wasanaeth yn ystod y tymor na thros y gwyliau. Plant rhwng 5-7 oed yw'r grŵp o blant mwyaf sy'n derbyn gofal. Mae'r ddarpariaeth ar gael rhwng 6.30am-7pm yn ystod y tymor. Dros wyliau'r ysgol mae'r ddarpariaeth ar gael rhwng 7am-6.30pm gyda'r ddwy'n dweud eu bod ar agor bob dydd yn ystod y gwyliau ond heb ddweud am faint o wythnosau pob gwyliau y maent ar agor, felly ni wyddom hyn. Mae prisiau'n amrywio rhwng £3.50 yr awr a £45 drwy'r dydd. Nid oes plant gydag anghenion ADY yn derbyn gofal ar hyn o bryd ac nid yw'r un o'r ddwy'n codi'n ychwanegol am glytiau etc.

6.1.2. Crynodeb o'r prif gryfderau a gwendidau

Nifer y Gwarchodwyr Plant



Mae lleoedd gan warchodwyr plant ym mhob ardal ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r rhan fwyaf yn cynnig yr ystod lawn o wasanaethau. Fodd bynnag ychydig iawn o ofal sydd ar gael cyn 8am ac ar ôl 6pm. Gallai hyn achosi pryderon o gofio bod y rhan fwyaf o leoedd gan warchodwyr plant yn cael eu cymryd cyn ac ar ôl ysgol. Byddai gofal plant cyn ac ar ôl yr amseroedd hyn yn helpu rhieni sy'n gweithio.

Ychydig iawn sy'n codi'n ychwanegol am bethau fel clytiau, cludiant etc - mae'n cael ei gynnwys yn y pris. Fodd bynnag ychydig iawn sydd hefyd yn cynnig unrhyw ddisgownt i frodyr neu chwiorydd, a allai olygu, o ystyried bod y rhan fwyaf o'r lleoedd yn rhai gofal cyn ac ar ôl ysgol, bod gan rieni fwy nag un plentyn yn mynychu.

Mae canran uchel o'r lleoedd yn cael eu cymryd gan blant 2-3 oed neu 5-11 oed, ni ddywedodd unrhyw warchodwr plant eu bod yn gofalu am blant dros 11 oed.

Mae lle ar gael ym mhob ardal ac ni ddywedodd unrhyw un bod ganddynt restr aros.

6.2 Meithrinfa Drwy'r Dydd

6.2.1. Dadansoddiad o'r Cyflenwad Gofal Plant

Dylid crynhoi canfyddiadau allweddol yr ymgynghori gyda darparwyr, drwy ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 2. Dylid ystyried y pethau canlynol gan gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategori iaith:

- *Ystod y gwasanaethau a ddarperir*
- *Nifer a'r math o leoedd plant a ddefnyddir (llawn a rhan amser, ad-hoc)*
- *Nifer y lleoedd a ddefnyddir gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd*
- *Nifer y lleoedd iaith Gymraeg a ddefnyddir*
- *Rhestri aros a lleoedd gwag*
- *Amseroedd agor gan gynnwys faint sy'n cynnig oriau gofal hyblyg*
- *Ystod hyd y sesiynau*
- *Ystod oed y plant*
- *Ystod y ffioedd*

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar ddata SASS felly rhaid ei thrin gyda phwyll o ran ffeithiau a chywirdeb. Mae 24 lleoliad wedi cwblhau'r wybodaeth SASS felly mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar 24 o leoliadau.

Ardal 1- CF31

Yn ôl y data SASS mae 10 o wasanaethau gofal drwy'r dydd yn yr ardal hon, mae naw'n gweithredu drwy'r Saesneg ac un drwy'r Saesneg gyda rhai agweddau dwyieithog (Cymraeg).

Maent i gyd yn cynnig ystod o wasanaethau; ar wahân i sesiynau am/pm Meithrin. Gofal drwy'r dydd yw'r rhan fwyaf o'r lleoedd a gymerir gyda thua hanner yn mynychu'n rhan amser. Y clwb ar ôl ysgol yw'r ail wasanaeth mwyaf poblogaidd.

Mae plant sy'n mynychu'r gofal drwy'r dydd yn tueddu i fod yn rhan amser.

Mae'r gwasanaeth ar gael yn ystod yr holl wyliau ysgol, gyda mwy o blant yn mynychu'n rhan yn hytrach na'n llawn amser.

Mae lleoedd gwag ar gyfer pob math o wasanaeth, yn y tymor a thros y gwyliau, a neb ar restr aros.

Plant 19 mis i 3 oed yn ystod y tymor sy'n mynychu'r rhan fwyaf o leoedd. Yn ystod y gwyliau plant 5-7 oed sy'n mynychu'r rhan

fwyaf o leoedd.

Yn ystod y tymor mae'r gwasanaeth ar gael rhwng 6.30am a 7pm bob dydd ar wahân i ddydd Sadwrn a Sul, a rhwng 7am-6pm yn ystod y gwyliau. Dywedodd rhwng 6-8 lleoliad eu bod ar agor bob dydd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae 7 gwasanaeth yn cynnig darpariaeth cyn 8am a thri'n cynnig gwasanaeth ar ôl 6pm yn ystod y tymor.

Mae'r prisiau'n amrywio rhwng £3.91 yr awr a £43 am ddiwrnod llawn; mae gofal hanner diwrnod yn uchafswm o £30; mae gofal ar ôl ysgol yn uchafswm o £19.50. Uchafswm y gost am ofal cyn ysgol yw £10 ac uchafswm y gost yn ystod y gwyliau yw £30.50.

Nid oes neb yn codi'n ychwanegol am glytiau, cludiant etc ac mae'r disgowntiau i frodyr / chwiorydd yn amrywio rhwng 5, 6, 10 a 15%.

Mae gan 34 o'r plant sy'n derbyn gofal anghenion ADY, y prif reswm yw anawsterau lleferydd ac iaith.

Mae un lleoliad yn cynnig gwasanaeth ADY arbenigol lle mae gan bob plentyn sy'n mynychu anghenion dysgu ychwanegol.

Ardal 2- CF32 a CF39

Mae tri gwasanaeth gofal drwy'r dydd yn yr ardal hon, dim ond un sy'n cynnig gwasanaethau eraill heblaw gofal drwy'r dydd.

Cynigir pob gwasanaeth heblaw am ofal cofleidiol. Awgryma'r data bod y rhai sy'n mynychu drwy'r dydd yn dod yn rhan amser ac yn ystod y tymor yn bennaf. Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'r gwasanaeth ar agor bob gwyliau heblaw am y Nadolig, a'r rhan fwyaf yn dod yn rhan amser.

Mae lleoedd gwag ar gyfer gofal drwy'r dydd a rhai ar gyfer gofal hanner diwrnod.

Ni roddwyd unrhyw ddata ar gyfer unrhyw wasanaeth arall. Nid oes unrhyw restr aros.

Plant 2-3 oed sy'n mynychu'r ddarpariaeth hon. Mae'r gwasanaeth ar gael rhwng 7am-6.30pm yn ystod y tymor a'r gwyliau, a phob gwyliau heblaw am y Nadolig.

Mae'r prisiau yn yr ardal yn amrywio rhwng £3.81 yr awr a £37 drwy'r dydd; mae gofal hanner diwrnod yn costio rhwng £5.75 yr awr a £24.50 y dydd. Ni roddwyd costau ar gyfer unrhyw wasanaeth arall.

Nid oes yr un lleoliad yn codi'n ychwanegol am glytiau etc ac mae un sy'n cynnig disgownt o 15% i frodyr/chwiorydd. Mae gan naw o'r plant sy'n derbyn gofal yn yr ardal anghenion ADY. Mae un plentyn ar gynllun Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar ac un arall ar Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy.

Ardal 3- CF33

Mae dau wasanaeth gofal drwy'r dydd yn yr ardal hon, y ddau'n cynnig gofal drwy'r dydd ac un yn cynnig gwasanaethau ychwanegol fel gofal cyn ac ar ôl ysgol, cinio a gofal cofleidiol. Mae mwy'n derbyn gofal drwy'r dydd na gofal rhan amser. Fodd bynnag mae'r rhai sy'n mynychu sesiynau drwy'r dydd yn fwy rhan amser, a'r rhai sy'n mynychu sesiynau rhan amser yn fwy llawn amser.

Y sesiynau rhan amser yn y prynhawniau a'r clwb ar ôl ysgol sy'n gweld y nifer fwyaf o blant yn mynychu yn y tymor.

Adroddwyd bod lle gwag ar gyfer gofal drwy'r dydd a pheth ar gyfer gofal rhan amser ac nid oes unrhyw restr aros.

Yn anffodus ni chyflwynwyd unrhyw ddata ar gyfer amseroedd agor dros y gwyliau nac yn ystod y tymor, ond dywedodd un lleoliad eu bod yn cynnig y gwasanaeth cyn 8am yn ystod y tymor.

Mae'r prisiau yn yr ardal yn amrywio rhwng £28.50-38 drwy'r dydd a rhwng £18-23 am ofal hanner diwrnod; £13.50 cyn ysgol; £16 ar ôl ysgol; £15 am hanner diwrnod dros y gwyliau.

Nid oes neb yn codi'n ychwanegol am glytiau, cludiant etc ac mae'r disgownt i frodyr/chwirydd yn amrywio rhwng 10-15%. Mae gan un plentyn anghenion ADY, gydag angen dysgu penodol.

Ardal 4- CF34

Mae pedwar gwasanaeth drwy'r dydd yn yr ardal hon, i gyd yn cynnig gofal drwy'r dydd a dau'n cynnig ystod o wasanaethau eraill. Mae tua'r un faint o blant yn mynychu'n rhan amser â llawn amser ynghyd â'r clybiau cyn ac ar ôl ysgol. Mae mwy o blant yn mynychu'n rhan amser na'n llawn amser yn ystod y tymor a'r gwyliau.

Mae nifer uchel o leoedd gwag ar gyfer gofal hanner diwrnod a rhai ar gyfer gofal cyn ac ar ôl ysgol.

Nid oes rhestr aros yn ystod y tymor na'r gwyliau.

Plant 2-3 oed yw'r grŵp oed mwyaf sy'n derbyn gofal yn ystod y tymor, gyda phlant 19-23 mis a 5-7 oed yn agos iawn atynt.

Plant 3 oed a 5-7 oed yw'r grŵp oed mwyaf sy'n mynychu yn ystod y gwyliau.

Yn ôl y data a dderbyniwyd, mae'r gwasanaeth ar gael rhwng 7am-6pm bob dydd ar wahân i'r penwythnos, a'r un fath dros y gwyliau. Mae gwasanaeth yn ystod pob gwyliau.

Dywedodd dri eu bod yn cynnig gofal cyn 8am ac un ar ôl 6pm yn ystod y tymor.

Mae'r prisiau yn yr ardal yn amrywio rhwng £35-£37.50 am ofal drwy'r dydd, £15-£20 am hanner diwrnod, rhwng £4.50 yr awr a £8.50 y sesiwn am ofal cyn ysgol a rhwng £4.50 yr awr a £12.50 y sesiwn ar ôl ysgol; £13 am ofal cofleidiol a rhwng £15-£20 am hanner diwrnod dros y gwyliau.

	Lefel 2	Canolig	1	0.2%
	Lefel 3	Uchel	288	55.4%
	Lefel 3	Isel	10	1.9%
	Lefel 3	Canolig	10	1.9%
	Lefel 4	Uchel	21	4.0%
	Lefel 5	Uchel	44	8.5%
	Lefel 6	Uchel	19	3.7%
	Lefel 7	Uchel	5	1.0%
	Lefel 7	Canolig	1	0.2%
	Dim	-	9	1.7%
	Heb nodi	-	26	5.0%
Cyfanswm			520	100.0%

Unigolyn yn gweithio tuag at gymhwyster ar hyn o bryd

Math o wasanaeth	Lefel y Cymhwyster y Mae'n Gweithio Tuag Ato	Cyfanswm	%
Gwarchodwr Plant	Lefel 3	2	0.4%
	Lefel 4	4	0.8%

Gofal Dydd i Blant	Lefel 5	2	0.4%
	Lefel 7	2	0.4%
	Dim	26	5.0%
	Heb nodi	18	3.5%
	Lefel 2	5	1.0%
	Lefel 3	68	13.1%
	Lefel 4	19	3.7%
	Lefel 5	60	11.5%
	Lefel 6	7	1.3%
	Dim	272	52.3%
	Heb nodi	35	6.7%
	Cyfanswm	520	100.0%

Crynodeb o'r hyfforddiant gorfodol (ar sail dyddiadau dod i ben yn cael eu llenwi yng ngholofnau S, T ac U yn nhab CSA data 2)

Cymorth Cyntaf i Blant

Math o wasanaeth	Cymorth Cyntaf i Blant	Cyfanswm	%
Gwarchodwr Plant	Nag oes	5	1.0%
	Oes	49	9.4%
Gofal Dydd i Blant	Nag oes	65	12.5%
	Oes	401	77.1%
Total		520	100.0%

Hylandid Bwyd

Math o wasanaeth	Hylandid Bwyd	Cyfanswm	%
Gwarchodwr Plant	Nag oes	9	1.7%
	Oes	45	8.7%
Gofal Dydd i Blant	Nag oes	138	26.5%
	Oes	328	63.1%
Cyfanswm		520	100.0%

Amddiffyn Plant

Math o wasanaeth	Amddiffyn Plant	Cyfanswm	%
Gwarchodwr Plant	Nag oes	8	1.5%
	Oes	46	8.8%
Gofal Dydd i Blant	Nag oes	79	15.2%
	Oes	387	74.4%
Cyfanswm		520	100.0%

Y cymhwyster uchaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw Lefel 7. Mae gan bedwar aelod o weithlu gofal plant Pen-y-bont gymhwyster ar y lefel hon ar draws y gwasanaethau gwarchodwr plant, gofal y tu allan i oriau ysgol a gofal drwy'r dydd.

Yn ogystal, mae dau warchodwr plant yn gweithio tuag at Lefel 7.

14. Canlyniadau'r Ymgynghori gyda Rhanddeiliaid (gweler Adran 2)

Dylid crynhoi'r prif ganfyddiadau o ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid allweddol.

Ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ymatebion yr ymgynghoriad â chyflogwyr.

Ar 31/03/2016 roedd yr awdurdod yn cyflogi 6,211 o bobl. Merched yw pedwar allan o bump (79%) o staff yr awdurdod. Ni wyddom


faint o weithwyr sydd â phlant dan 14 oed, fodd bynnag mae'r awdurdod yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg a manteision gofal plant (h.y. cynllun talebau gofal plant electronig) i rieni / gofalwyr.

Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod gan y sefydliad broblemau recriwtio neu gadw staff am resymau gofal plant.

Canlyniadau'r Ymgynghori â Phlant:


Anfonwyd yr arolwg allan at bob un o'r lleoliadau gofal plant ar ôl ysgol a chasglwyd yr ymatebion a'r wybodaeth ynghyd. Casglwyd cyfanswm o 18 ymateb gan bedwar lleoliad lle'r oedd y plant a'r bobl ifanc yn amrywio rhwng 7-12 oed. Roedd yr arolwg yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc leisio eu barn am y ddarpariaeth gofal plant a ddefnyddir ganddynt ar hyn o bryd. Mae'r siartiau isod yn nodi eu barn am y cwestiynau, er enghraifft faint o sesiynau a fynychir ganddynt bob wythnos, pam eu bod yn mynychu'r clwb ar ôl ysgol, a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn mynychu clwb ar ôl ysgol mewn ysgol uwchradd, barn eu rhieni am fynychu clwb ar ôl ysgol mewn ysgol uwchradd a beth y byddent yn hoffi ei wneud mewn clwb ar ôl ysgol.

Plant sy'n mynychu clwb ar ôl ysgol yn ôl rhywedd




Data o holiaduron clwb ar ôl ysgol (ASC) wedi eu cwblhau, Hydref 2016

Oed y plant sy'n mynychu clwb ar ôl ysgol




Data o holiaduron wedi eu cwblhau a'u dychwelyd, Hydref 2016

Am faint o ddiwrnodau ydych chi'n mynd i glwb ar ôl ysgol?



Data collected from completed and returned questionnaires October 2016


Pam ydych chi'n mynd i glwb ar ôl ysgol?



Data collected from completed and returned questionnaires October 2016


Data o holiaduron wedi eu cwblhau a'u dychwelyd, Hydref 2016

Ydy eich rhieni eisiau i chi fynd i glwb ar ôl ysgol yn yr ysgol uwchradd?



Data collected from completed and returned questionnaires October 2016


Fyddech chi'n hoffi mynd i glwb ar ôl ysgol yn yr ysgol uwchradd?



Data collected from completed and returned questionnaires October 2016


Data o holiaduron wedi eu cwblhau a'u dychwelyd, Hydref 2016

Pam fydddech chi'n hoffi mynd i glwb ar ôl ysgol yn yr ysgol uwchradd?



Data collected from completed and returned questionnaires October 2016

Pa weithgareddau fydddech chi'n hoffi eu gwneud mewn clwb ar ôl ysgol?



Data collected from completed and returned questionnaires October 2016

Data o holiaduron wedi eu cwblhau a'u dychwelyd Hydref 2016

Casgliadau

O'r 18 o blant a phobl ifanc a ddychwelodd yr holiadur, nodwyd fod 78% o blant sy'n mynychu clwb ar ôl ysgol yn gwneud hynny oherwydd bod eu rhieni'n gweithio. Hefyd, mae 72% o blant yn credu y byddai eu rhieni'n hoffi iddynt barhau i fynd i'r clwb ar ôl ysgol yn yr ysgol uwchradd. Mewn cymhariaeth, dywedodd 56% o blant a phobl ifanc y byddent yn hoffi parhau i fynd i glwb ar ôl ysgol yn yr ysgol uwchradd.

Pacey Cymru

Mae PACEY Cymru yn credu bod awdurdod lleol Pen-y-bont yn cydnabod pwysigrwydd gwarchodwyr plant gyda helpu i ddarparu gwasanaethau gofal plant digonol, hygyrch ac o ansawdd da i deuluoedd ar draws Pen-y-bont. Mae gwarchodwyr plant yn derbyn cefnogaeth drwy'r awdurdod lleol, fodd bynnag ychydig iawn o gyswllt sydd gyda PACEY Cymru i ddatblygu mwy o gyfleoedd i warchodwyr plant.

Gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol

Cynhaliwyd cyfarfodydd achlysurol ynghyd ag e-byst a galwadau ffôn â'r Gweithiwr Datblygu Gofal Plant sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys gwarchodwyr plant. Mae'r rhain wedi rhannu gwybodaeth ar lefel leol a chenedlaethol, er enghraifft am y newidiadau diweddar i Reoliadau AGGCC a'r broses Gynllunio ym Mhen-y-bont yn benodol.

Mae PACEY Cymru yn awyddus i weld Pen-y-bont yn manteisio ar y Cynnig Craidd blynyddol o gymorth strategol i awdurdodau lleol. Er y defnyddiwyd rhai oriau yn y gorffennol, teimlai Rheolwr y Tîm Gofal Plant na allent hyd yma wneud defnydd ohono eleni. Mae PACEY Cymru yn teimlo bod hwn yn gyfle wedi'i golli a allai helpu gwarchodwyr plant yn yr awdurdod lleol a byddai'n fodlon trafod hyn ymhellach.

Hyfforddiant a Sicrhau Ansawdd

Yn y flwyddyn ddiwethaf mae PACEY Cymru wedi cynnal pedwar gweithdy fel rhan o raglen hyfforddiant gofal plant Pen-y-bont sydd ar gael i bob darparwr gofal plant. Y rhain oedd Hwyl gyda'r Gymraeg, Hwyl gyda'r Gymraeg – Y Camau Nesaf, Basgedi Trysor, a Chyfyngau Cymdeithasol a Marchnata.

Cysylltodd PACEY Cymru â'r Tîm Gofal Plant i hyrwyddo'r gweithdy Cynllunio ar gyfer Dysgu sy'n cael ei gynnal yn yr ardal, oedd ar gael i bob gwarchodwr plant ac yn ddi-dâl i aelodau, gyda dau ddarparwr o Ben-y-bont yn Mynychu.

Mae'r Gweithiwr Datblygu Gofal Plant ar gyfer gwarchodwyr plant hefyd yn rheoli Rhwydwaith Gwarchodwyr Plant yr awdurdod lleol i ddarparu gofal plant ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel rhan o'r Rhwydwaith mae'r gwarchodwyr plant hyn yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd a drefnir gan y Gweithiwr Datblygu Gofal Plant, i ddarparu cymorth a hyfforddiant. Fodd bynnag mae'r cymorth ychwanegol ar gael i warchodwyr plant y Rhwydwaith yn unig.

Mae PACEY Cymru yn credu y dylid ystyried ystod ehangach o hyfforddiant a chymorth i'r holl ddarparwyr gofal plant ym Mhen-y-bont. Credwn fod mynediad at hyfforddiant parhaus yn rhoi cyfle i ddarparwyr gofal plant wella a datblygu eu gwasanaeth, gan gynnwys hawliau plant, drwy weithio'n agos â'r rhieni a phartneriaid eraill a helpu i gadw'r lleoliadau'n gynaliadwy.

O'r wybodaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd, ar hyn o bryd mae 12 o warchodwyr plant yn cael eu hariannu i ddarparu Dechrau'n Deg ym

Mhen-y-bont o dan Rwydwaith yr awdurdod lleol. Mae PACEY Cymru yn credu bod hyn yn sicrhau cyfle cyfartal ar draws y sector, yn helpu i sicrhau bod gwarchodwyr plant yn gynaliadwy ac yn rhoi dewis i rieni. Mae hefyd yn debygol o arwain at ganlyniadau gwell i blant drwy ddarparu parhad gofal sy'n cwrdd ag anghenion plant, wedi'i gysylltu i les. Gyda datblygiad y cynnig 30 awr, mae'n debygol o fod yn faes datblygu pwysig yn y misoedd i ddod ac mae PACEY Cymru yn awyddus i bwysleisio bod gwarchodwyr plant yn cael cyfle i gefnogi cynaliadwyedd y lleoliadau presennol.

Gall gwarchodwyr plant ar y Rhwydwaith hefyd ddarparu lleoliadau gofal plant i atgyfeiriadau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nid oes unrhyw leoliadau gwarchod plant ym Mhen-y-bont yn cael eu hariannu i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen. Mae PACEY Cymru yn credu y dylid ystyried cyfle i ddefnyddio cyllid Cyfnod Sylfaen ar gyfer lleoliadau gwarchod plant os ydynt yn cwrdd â meini prawf. Credwn y byddai hyn yn sicrhau cyfle cyfartal ar draws y sector, yn helpu i sicrhau bod gwarchodwyr plant yn gynaliadwy ac yn rhoi dewis i rieni. Mae hefyd yn debygol o arwain at ganlyniadau gwell i blant drwy ddarparu parhad gofal sy'n cwrdd ag anghenion plant, wedi'i gysylltu i les. Mae PACEY Cymru yn deall goblygiadau cost defnyddio gwarchodwyr plant i ddarparu gwasanaethau wedi'u hariannu ond y dylai'r canlyniadau i blant fod yn ganolog i unrhyw benderfyniadau.

Byddai PACEY Cymru yn barod iawn i weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol ar y mater hwn ac i drafod modelau posib sy'n gost-effeithiol ond hefyd yn cwrdd ag anghenion plant a'u teuluoedd.

NDNA

1. Wrth feddwl am yr ystod o ofal plant sydd ar gael i rieni a gofalwyr ym Mhen-y-bont, sut fydddech chi'n sgorio'r canlynol?

	Gwael	Boddhaol	Da	Ardderchog	Ddim yn gwybod
Ansawdd y Gofal	☐	☐	☒	☐	☐
Ystod y darparwyr	☐	☐	☒	☐	☐
Nifer o leoedd	☐	☐	☐	☐	☒

Fforddiadwyedd	☐	☒	☐	☐	☐
Hyblygrwydd y ddarpariaeth a'r sesiynau	☐	☒	☐	☐	☐
Addasrwydd yr amseroedd agor	☐	☐	☒	☐	☐
Lleoliad a hygyrchedd a gofal plant	☐	☐	☒	☐	☐
Darpariaeth Gymraeg / Ddwyeithog	☒	☐	☐	☐	☐

2. A oes gennych unrhyw farn am y Farchnad Gofal Plant ym mhob awdurdod lleol unigol?

Dylech ystyried ansawdd, fforddiadwyedd a pha mor ddigonol yw **pob math** o ofal plant wrth ateb.

Nid oes gan NDNA Cymru ddata ar bob math o ofal plant. Mae NDNA Cymru wedi cwblhau ymarfer mapio'n defnyddio data eilaidd gan AGGCC a data o wefan Estyn. Mae NDNA Cymru yn ymwybodol bod gan Ben-y-bont 27 o leoliadau gofal drwy'r dydd nas cynhelir a bod 18 ar hyn o bryd yn derbyn cyllid Cyfnod Sylfaen. Yn ôl data ac adroddiad blynyddol AGGCC 2014-15: ar 31 Mawrth 2015, 21.7 oedd cyfradd y lleoliadau gofal dydd i blant am bob 100 o'r boblogaeth dan 8 oed, gydag amcan-boblogaeth canol blwyddyn (2014) o 12,881 ar sail data ONS.

Yn dilyn yr Asesiad Busnes gan CWLWM mae'n glir bod nifer fawr o ddarparwyr gofal plant wedi derbyn dyfarniad cynllun sicrhau ansawdd i godi uwchlaw'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae darparwyr gofal plant yng Nghymru'n ei chael yn anodd aros mewn busnes oherwydd costau cynyddol a llai o blant

yn dod atynt, yn ôl arolwg gan y Gymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd.

Mae costau busnes yn codi – yn enwedig gyda'r Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill yn debygol o arwain at gynnydd o 13% mewn costau cyflog, yn ôl Arolwg Blynyddol yr NDNA o feithrinfeydd Cymru 2016.

Yn y cyfamser, mae nifer y plant wedi gostwng i 67% y capasiti, o'i gymharu â 69% y llynedd, oherwydd bod mwy o blant yn dechrau'r ysgol yn dair oed, ac o ganlyniad i gynnydd anochel mewn ffioedd fel bod gofal plant yn llai fforddiadwy i rieni.

Dywedodd 23% o'r 115 o ymatebwyr, sef 18% o'r holl ddarparwyr gofal drwy'r dydd i blant dan 8 oed yng Nghymru, fod ganddynt ychydig iawn o hyder mewn busnes. Dywedodd lai o feithrinfeydd fod ganddynt hyder, dim ond 41% o'i gymharu â 60% y llynedd.

3 Os oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ar sut y gall gofal plant gwrdd yn well ag anghenion y grwpiau hyn, nodwch hwynt yma os gwelwch yn dda.

4

Gwelliannau i deuluoedd ar incwm isel

O ran uchelgais Llywodraeth Cymru i gefnogi plant a theuluoedd drwy ymestyn addysg blynyddoedd cynnar am ddim a gofal plant i 30 awr yr wythnos am 48 wythnos o'r flwyddyn. Felly byddai NDNA Cymru yn gobeithio y bydd hyn yn helpu teuluoedd ar incwm isel.

Hyrwyddo gwasanaethau

Mae gwarchodwyr plant, fel gyda darparwyr gofal plant eraill, yn gallu cynnwys gwybodaeth sylfaenol i rieni drwy adnodd 'Chwilio am Ddarparwyr Gofal Plant' y FIS, gyda dolenni i'w gwefan neu dudalen Facebook.

Mae PACEY Cymru yn credu'n gryf bod hefyd angen parhau i hyrwyddo er mwyn tynnu sylw rhieni a'r gymuned yn gyffredinol at effaith y newidiadau diweddar i'r rheoliadau a bod angen bellach cofrestru gofal plant a ddarperir i blant dan 12 oed. Mae hyn eto'n cefnogi cynaliadwyedd darparwyr gofal plant cofrestredig, ac yn unol â'r dystiolaeth, yn sicrhau canlyniadau gwell i blant a theuluoedd drwy ddefnyddio gofal plant wedi'i reoleiddio.

Clybiau Plant Cymru

Oherwydd nad yw Pen-y-bont yn ariannu Clybiau Plant Cymru nid oeddent yn teimlo y gallent ateb y cwestiwn am ansawdd y gofal ym

Mhen-y-bont. Nid oedd yr ymateb ychwaith yn benodol i Ben-y-bont, ond yn ymateb cyffredinol iawn.

Gwelliannau i Deuluoedd Incwm Isel

Dylai clybiau gofal y tu allan i oriau ysgol sy'n darparu gofal hygyrch, fforddiadwy ac o ansawdd da fod ar gael i bob cymuned sydd eu hangen.

Gall cefnogi clybiau gofal y tu allan i oriau ysgol drwy arian o'r grant Gofal Plant y Tu Allan i Orlau Ysgol, arwain at wneud gofal yn fwy hygyrch i deuluoedd ar incwm isel. Gellir cyflawni hyn drwy'r dulliau canlynol:

Sicrhau bod digon o hyfforddiant fel bod staff yn gallu ennill cymwysterau, fel bod lleoliadau'n gallu parhau i fod yn gofrestredig.

Cefnogi lleoliadau i gofrestru gydag AGGCC fel bod rhieni'n gallu cael gafael ar gyllid i helpu gyda ffioedd gofal, fel elfen gofal plant y credyd treth i deuluoedd sy'n gweithio, y credyd cynhwysol, a'r gofal plant di-dreth sydd i'w gyflwyno cyn bo hir.

Bod digon o gyllid ar gael i sefydlu cynllun Cymorth Lleoedd ym mhob sir. Mae manteision dirifedi o gael cynllun wedi'i ariannu'n llawn. Mae plant o deuluoedd incwm isel yn elwa drwy allu cymdeithasu a chael cyfle i chwarae gyda theganau, adnoddau a chwarae gemau nad ydynt efallai ar gael yn y cartref. Mae'r plant yn gallu chwarae a gwneud ffrindiau y tu allan i'r diwrnod ysgol, sydd o gymorth i'w datblygiad. Mae'r plant hefyd yn elwa o fyrbrydau iach ac o gael cyfle i brofi bwydydd nad ydynt efallai yn eu cael yn y cartref. Mae negeseuon allweddol yn aml yn mynd o'r clybiau gofal plant yn ôl i'r cartref.

Mae rhieni'n elwa o ddyheu am ddychwelyd i weithio neu hyfforddi neu o allu gweithio oriau hirach gan felly gynyddu incwm yr aelwyd a gwario mwy yn y gymuned leol.

Yn ddiweddar caewyd rhai o'r Cynlluniau Cymorth Lleoedd i ddefnyddwyr blaenorol a'u hanelu at deuluoedd sy'n gymwys o dan Deuluoedd yn Gyntaf yn unig, sydd ymhell o fod mewn sefyllfa i ddychwelyd i weithio neu hyfforddi. Gadawodd hyn fwch y mae teuluoedd incwm isel wedi disgyn iddo, gan leihau eu rhagolygon gwaith a gadael plant mewn tldi.

Mae rhai awdurdodau lleol (fel Casnewydd a Gwynedd yn ariannu Clybiau Plant Cymru i weinyddu Cynllun Cymorth Lleoedd) yn defnyddio cyfran o'u grant y Tu Allan i Orlau Ysgol i ariannu Cynllun Cymorth Lleoedd, ond nid pawb, ac o'r rhai sydd yn gwneud,

mae rhai efallai'n ariannu dim ond 1-2 diwrnod yr wythnos sy'n lleihau'r budd, yn enwedig i rieni ar incwm isel sy'n gweithio.

Gall cynnig adnoddau cyhoeddus, fel ysgolion ac adeiladau cymunedol, am brisiau rhesymol wneud Clybiau Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol yn fwy cynaliadwy a fforddiadwy i deuluoedd incwm isel. Ni ddylai awdurdodau lleol feddwl am adennill referniw wedi'i golli drwy godi'r rhent ar yr adeiladau hyn; yn hytrach dylent gapio'r rhent i sicrhau bod clybiau'n fforddiadwy a chynaliadwy.

Bydd gweithgareddau da sy'n cynnwys y plant tra byddant yn y lleoliad, gan danio eu dychymyg a'u helpu i ddysgu drwy chwarae, yn ei dro, yn gwneud y lleoliad yn fwy deniadol ac o ganlyniad yn fwy cynaliadwy. Dylid annog lleoliadau i weithio tuag at wella ansawdd yn gyson ac mae cael y cyllid i wneud hyn yn bwysig.

Byddai ymgyrch farchnata genedlaethol i werthu manteision a chyfleoedd na fyddai plant efallai'n eu cael fel arall, nid yn unig o fudd i leoliadau ond yn apelio at rieni na fyddent fel arall efallai'n defnyddio gofal plant.

Gwelliannau i Deuluoedd sydd â Phlant ag Anableddau

Os oes angen cymorth ychwanegol fel gweithiwr 1:1 ar blant ag anghenion ychwanegol er mwyn gallu mynychu, y darparwr gofal, sy'n aml yn cael trafferth aros yn gynaliadwy beth bynnag, sy'n gorfod ysgwyddo'r gost yn aml neu nid yw'r plentyn yn gallu mynychu. Mae toriadau wedi gweld llai o ddarpariaeth i blant ag anghenion ychwanegol yn y blynyddoedd diwethaf. Lle bynnag y bo'n bosib dylid integreiddio plant ag anghenion ychwanegol o fewn lleoliadau gofal plant.

Yn aml iawn nid oes gan leoliadau gofal plant yr hyder i ofalu am blant ag anghenion ychwanegol ac yn ansicr a fedrant ymdopi. Os yw gweithwyr chwarae i ddeall sut i wneud eu lleoliadau'n hygyrch a chynhwysol i bawb, rhaid cael cyllid priodol i redeg sesiynau gwybodaeth a hyfforddiant arbenigol i staff fel y medrant deimlo'n ddigon gwybodus a chymwys i ofalu. Mae hefyd angen cyllid i wneud mân newidiadau i'r lleoliad er mwyn gallu cynnig gofal i blant ag anghenion ychwanegol.

Lle mae plant wedi eu hintegreiddio o fewn y lleoliad gofal plant, maent yn ffynnu a hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar blant eraill yn y lleoliad nad oes ganddynt anghenion ychwanegol. Dylid tynnu sylw at yr arfer da hwn a'i rannu gyda lleoliadau eraill i ddangos sut y mae'n gweithio.

Mae grantiau Dwylo Ychwanegol ar gael gan rai awdurdodau lleol fel bo'r lleoliad yn gallu cyflogi gweithiwr 1:1 i ofalu'n benodol am blentyn gydag anghenion ychwanegol. Mae angen lledaenu'r cynllun hwn ar draws Cymru ac annog pob lleoliad gofal plant i dderbyn plant ag anghenion ychwanegol. Mae rhai awdurdodau lleol yn ariannu Dwylo Ychwanegol allan o'u grant Gofal y Tu Allan i Orlau Ysgol ond nid yw'n digwydd yn gyson ar draws Cymru.

Gwelliannau i Deuluoedd sy'n Gweithio

Mae lleoliadau gofal plant yn hollbwysig fel bod rhieni / gofalmwr yn gallu gweithio, dychwelyd i weithio neu hyfforddi er mwyn dychwelyd i weithio. Mae angen i rieni / gofalmwr fod yn siŵr bod eu plant yn ddiogel ac yn derbyn gofal mewn lleoliad wedi'i redeg yn dda, neu ni fydd rhieni di-waith sydd angen dychwelyd i weithio / chwilio am waith yn gwneud hynny. Rhaid i ofal plant fod yn hygyrch, fforddiadwy a hyblyg i ateb anghenion y rhieni / gofalmwr ond, yn aml iawn, mae'n anodd plesio pawb oherwydd rhaid i'r lleoliad aros yn gynaliadwy. O'n hymchwil gyda rhieni, gwyddom fod clybiau gofal plant wedi cael effaith fawr ar rieni drwy eu helpu i gael gwaith, gweithio mwy o oriau, hyfforddi i wella eu rhagolygon gwaith a dyrchafiad a hyd yn oed drwy roi tawelwch meddwl iddynt i ganolbwyntio yn eu gwaith.

Dywedodd 17% o'r rhieni a holwyd fod gofal plant wedi eu helpu i ddod i hyd i waith newydd, gyda 9% yn dweud bod eu partneriaid hefyd wedi dod o hyd i waith.

Dywedodd 20% o'r ymatebwyr eu bod wedi gallu gweithio mwy o oriau, a 17% bod eu partneriaid hefyd wedi gallu.

Mae angen gofal plant am fwy na dwy awr ar rai teuluoedd, ond lleiafrif yw'r rhain yn aml felly ni all lleoliad gofal plant fforddio â rhedeg am awr ychwanegol gyda dau aelod o staff i ddim ond 1-2 o blant efallai. Efallai y dylid meddwl am gymhorthdal i leoliadau i aros ar agor i ateb anghenion y lleiafrif hwn? Gellid defnyddio cyllid parhaus y grant gofal y tu allan i oriau ysgol i gynnal y lleoliadau gofal plant presennol yn hytrach na datblygu rhai newydd.

Gwelliannau i Deuluoedd sy'n Chwilio am Waith

Yn gyntaf oll, mae angen help ar bob clwb i gofrestru gydag AGGCC er mwyn gwella ansawdd ac fel bod rhieni sy'n gweithio'n cael cymorth gyda chostau gofal plant. Mae cryn dipyn o waith eto i'w wneud i sicrhau bod pob clwb yn cofrestru, a rhai rhwystrau i'w goresgyn (parhau i ariannu cymwysterau Gwaith Chwarae, ariannu gwelliannau i leoliadau, cymorth ar draws pob sir i bwyllgorau

gwblhau eu gwaith papur).

Byddai cymhorthdal ar gyfer lleoedd gofal plant i rai sy'n ymuno â'r gweithle hefyd yn hwyluso pontio i fyd gwaith. Mae costau gofal plant yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol, yn enwedig i deuluoedd incwm isel / unig riant / gofalwyr. Clywsom hanesion am unig rieni'n gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith ar ddechrau gwyliau'r haf ac ail-afael ynddi ym mis Medi neu'n gorfod benthg y arian i dalu am gostau gofal plant dros yr haf.

Gellid hefyd cynnig sesiynau blasu am ddim i blant mewn teuluoedd nad ydynt mewn gwaith, ochr yn ochr â chymorth arall er mwyn helpu i gael gwared ar rai o'r rhwystrau i weithio. Byddai cysylltu'r math yma o gymorth i Ddechrau'n Deg yn gam ymlaen. Ar hyn o bryd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, mae rhieni'n mwynhau gofal plant cyn ysgol am ddim ond, mewn nifer o ardaloedd ac yn enwedig mewn rhai difreintiedig, nid yw'r gofal yn parhau unwaith y mae'r plant yn cychwyn yn yr ysgol oherwydd bod angen mwy o adnoddau dynol ac ariannol i'w gynnal.

Sylwadau pellach:

Yn aml iawn mae'r asesiadau CSA yn nodi bod angen gofal plant mewn rhai ardaloedd ond nid yw'n holi am barodrwydd neu allu'r rhieni i dalu. Pe bai'n cael ei gynnwys byddai'n rhoi syniad llawer gwell o ble mae angen gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio a hyfforddi.

Dylid cyfyngu'r grant gofal y tu allan i oriau ysgol i'r math penodol hwn o ofal i sicrhau bod y ddarpariaeth yma'n aros yn gynaliadwy. Lle mae'r Sir wedi tynnu cyllid ar gyfer gofal y tu allan i oriau ysgol (gan gynnwys i gyflogi Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant) yn ôl, mae lleihad amlwg yn y ddarpariaeth wedi bod. Mae'r grant gofal y tu allan i oriau ysgol yn helpu clybiau i sefydlu (grant lleoedd newydd), i aros yn gynaliadwy (grant cynaliadwyedd), i gynnig y Cynllun Cymorth Lleoedd (i deuluoedd incwm isel) a Dwylo Ychwanegol (staff 1:1 i blant ag anghenion ychwanegol) a daw'r cwbl gyda chymorth Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant profiadol ynghyd ag anodau sefydliadol wedi eu treialu a'u datblygu dros flynyddoedd lawer yn y sector gofal plant.

Mae datblygiad a chynaliadwyedd lleoliadau hefyd yn creu a diogelu swyddi'n lleol ac yn gwella sgiliau'r Gweithwyr Chwarae. Bydd cyllid i ddarparu hyfforddiant Gwaith Chwarae i rai nad ydynt yn cwrdd â Chynnydd ar gyfer Llwyddiant neu Brentisiaethau Dysgu Seiliedig ar Waith gan Lywodraeth Cymru yn parhau i fod yn allweddol i lwyddiant y sector ac i helpu pobl i ddyheu am well gan gynnwys codi eu teulu allan o dlodi mewn gwaith sy'n gymaint o aflwydd i deuluoedd incwm isel.

Gallai llwybrau posib i gefnogi darpariaeth newydd, neu i gynyddu darpariaeth mewn rhai ardaloedd, yn sgîl datblygiadau tai neu gyflogaeth newydd, ddod drwy wneud defnydd mwy deallus o'r system gynllunio. Ar hyn o bryd mae'r system gynllunio'n caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol ofyn bod datblygwyr yn cyfrannu at gwrdd â'r galw sy'n cael ei greu gan ddatblygiad newydd. Mae ysgolion eisoes yn elwa o hyn pan fydd datblygiad tai newydd efallai'n cynyddu'r pwysau ar yr ysgolion presennol, gan liniaru'r effaith drwy gyfraniad ariannol. Yn yr un modd gallai fod yn ofynnol i ddarparwr cyflogaeth newydd gefnogi gofal ychwanegol y tu allan i oriau ysgol fel rhan o'i ganiatâd.

WPPA

Mae Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA) yn ymateb i'r holiadur hwn fel sefydliad unigol oherwydd nid yw'n rhan o'n gwaith Cwllwm.

Nid ydym wedi ateb cwestiwn 1 oherwydd byddai'n ymateb goddrychol yn ymwneud â'r holl ddarparwyr yn yr awdurdod, ac yn ein barn ni nid yw hynny'n briodol oherwydd mae gan leoliadau elfennau gofal rhagorol ond hefyd agweddau sydd angen eu gwella. Yn ardal awdurdod lleol Pen-y-bont, mae un darparwr yn gweithio tuag at ddyfarniad Ansawdd i Bawb WPPA Cymru. Mae darparwyr sy'n ennill y dyfarniad hwn yn cael eu hasesu'n flynyddol am ail-achrediad sy'n sicrhau bod y darparwyr gyda'r dyfarniad yn gweithredu'n uwch na'r gofynion gofynnol presennol ac yn gweithio'n galed a pharhaus i wella.

Ym Mhen-y-bont nid oes gennym wybodaeth fanwl am bob maes yng nghwestiwn 1 oherwydd nid yw WPPA wedi'i ariannu i gyflogi gweithiwr datblygu i ymweld â grwpiau'n rheolaidd i asesu'r wybodaeth yma.

Gwelliannau i Deuluoedd Incwm Isel

Pan gaiff ei gyflwyno, bydd cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru'n helpu i drechu tlodi ar draws Cymru, ac yn enwedig i rai sy'n profi tlodi a hwythau eisoes yn gweithio.

Byddai cymorth ariannol o fudd i deuluoedd incwm isel sydd angen help arnynt i dalu am ofal plant yn yr wythnosau cyntaf ar ôl dechrau swydd newydd – a'r prosiect PaCE i gwrdd yn rhannol â hyn.

Mae arian ar gyfer Cymorth Lleuedd yn brin fel bod angen ei flaenoriaethu ac, o ganlyniad, gallai rhai plant golli cyfleoedd i gymdeithasu a dysgu drwy chwarae.

I ddarparwyr, gellid cynnig mwy o gymorth i helpu gweithwyr chwarae i ddeall a chefnogi anghenion penodol teuluoedd incwm isel.

Gwelliannau i Deuluoedd sydd â Phlant ag Anableddau

Sylw Cymru gyfan yw hwn oherwydd nid oes data gennym ar ardaloedd awdurdod lleol unigol. Mae hwn yn destun pryder oherwydd mae'n ymddangos nad yw plant sydd angen cymorth 1:1 arnynt bob amser yn gallu derbyn y cymorth hwn.

Problem gyllid a gweinyddol yw hon ac ni fydd cyflwyno'r cynnig 30 awr yn helpu'r sefyllfa oherwydd nid yw'r galw presennol am y gwasanaethau hyn bob amser yn cael ei gwrdd o dan y trefniadau presennol oherwydd prinder cyllid.

Mae hyn er y ffaith bod ymyrryd yn gynnar yn cael ei weld fel rhywbeth allweddol i ddatblygiad plant ac i'w cyflawniad nes ymlaen.

Bydd angen cymorth a hyfforddiant o hyd ar weithwyr gofal i wneud y mwyafrif o bob cyfle i blant ag anableddau a'r mwyafrif byd o hyfforddiant a roddir iddynt, gorau'n byd.

Gwelliannau i Deuluoedd sy'n Gweithio

Dylai teuluoedd sy'n gweithio (dros 16 awr yr wythnos) elwa o'r cynnig gofal plant 30 awr.

Bydd y gwelliannau'n cynnwys oriau agor hyblyg a modelau gofal plant hyblyg y gellir eu datblygu i sicrhau bod plant yn gallu mwynhau'r cyfleoedd yn ystod eu gofal ac na fydd mynychu ystod o opsiynau gofal plant yn aflonyddu ar hynny, e.e. un model bosib fyddai cylch chwarae ar gyfer yr elfen addysg a gwarchodwr plant i roi gofal cofleidiol dros weddill diwrnod gwaith y rhiant. Mae'n bwysig bod rhieni'n gwybod pa opsiynau gofal plant a pha opsiynau hyblyg sydd ar gael yn eu hardal neu'n agos at eu gwaith.

Gallai rhai sy'n gweithio llai na 16 awr elwa o ddarparwyr yn codi cyfradd fesul awr ond efallai na fyddai hyn yn ymarferol i bob darparwr drwy fygwth eu cynaliadwyedd.

Gwelliannau i Deuluoedd sy'n Chwilio am Waith

Byddai hyblygrwydd o ran nifer yr oriau y byddai'r gofal ar gael yn gymorth. Byd y prosiect PaCE yn helpu drwy dalu am ofal plant tra bo'r rhieni'n hyfforddi neu'n chwilio am waith.

Gallai fod angen cymorth ariannol ar rieni i dalu am ofal plant tra byddant yn hyfforddi / mynychu cyfweiliadau ac yn ystod eu hwythnosau cyntaf mewn swydd newydd. Mae rhai modelau effeithiol o hyn wedi bod.

Mae'r Tîm Gofal Plant yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid Cwlwm ac yn sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn ymwybodol o fanteision bod yn aelod o'u sefydliad perthnasol.

Mae Swyddogion Datblygu'r Tîm Gofal Plant yn cefnogi'r holl sectorau gofal plant ac yn rhoi cymorth ar bob agwedd ar ofal plant.

15. Dadansoddiad o'r Bylchau a Meysydd i'w Gwella

Wedi ystyried eich dadansoddiad o'r galw a'r cyflenwad gofal plant, dylid crynhoi'r bylchau yn y ddarpariaeth gan roi sylw penodol i'r ardaloedd canlynol:

Defnyddiwyd y codau post canlynol drwy gydol y ddogfen. Mae'r tabl isod yn nodi'r ardaloedd sy'n disgyn i bob ardal cod post:

CF31	Tref Pen-y-bont, Bracla, Coity, Pen-y-Fai
CF32	Cefn Cribwr, Trelales, Cwm Ogwr, Tondy, Sarn, Ynysawdre, Pontycymer, Llangeinor, Cwm Garw, Blaengarw, Melin Ifan Ddu, Bettws ac Abercynffig
CF33	Corneli a'r Pîl
CF34	Tref Maesteg, Llangynwyd, Caerau, Nantyffyllon
CF35	Pencoed, Llangrallo
CF36	Porthcawl, Notais a'r Drenewydd yn Notais
CF39	Evanstown a Gilfach Goch

Gofynnwyd i ymatebwyr pam nad oeddent yn defnyddio gofal plant bob tro i'w plant. O'r ymatebion a gawsom, dywedodd 48 nad

oedd y gofal plant sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol i'r ymatebwyr:

Datganiad	CF31	CF32	CF33	CF34	CF35	CF36	Cyfanswm
Mae gofal plant yn rhy ddrud	7	3	6		6	1	27
Nid oes gofal cofleidiol neu glwb ar ôl ysgol yn ysgol fy mhlant.	2	3	1	2	1	2	11
Nid oes gofal plant ar gael i ateb anghenion ychwanegol fy mhlant		1		1	1		3
Mae gennyf broblemau gyda chludiant	1	1					2
Nid oes gofal plant ar gael ar yr adegau pan fo'i angen arnaf	1				1		2
Nid oes gofal plant yn y lle iawn							1
Nid oes gofal addas drwy gyfrwng y Gymraeg					1		1
'Arall' - preswilydd newydd		1					1
Cyfanswm							48

O'r datganiadau 'arall', dywedodd un ei fod yn cael trafferth cael gafael ar ofal plant. Yn ôl un arall oedd newydd symud i CF32 yr ymateb oedd 'dw i ddim yn gwybod beth yw'r adnoddau, rwyf newydd symud yma'. Dywedodd un preswilydd nad oedd gofal plant yn y lle iawn, ond ni roddwyd cod post felly ni allwn ei nodi fel bwlch.

I dros hanner y rhai nad oeddent yn defnyddio gofal plant, ystyriwyd ei fod yn rhy ddrud (56%). O'r 27 o ymatebwyr a ddywedodd fod gofal plant yn rhy ddrud, roedd gan saith incwm cartref o lai na £20,000, roedd gan bedwar incwm rhwng £20,001 a £40,000 ac roedd gan saith arall incwm cartref o dros £40,001.

Incwm cartref blynyddol cyfartalog	CF31	CF32	CF33	CF35	CF36	Cyfanswm
£0 - £10,000			2			2
£10,001 - £20,000	1	1	1	1	1	5
£20,001 - £30,000	2					2
£30,001 - £40,000			2			2
£40,001 - £50,000	1		1	2		4
£50,001 - £60,000				2		2

£70,000+		1				1
----------	--	---	--	--	--	---

Gofal plant cyfrwng Cymraeg

Dywedodd un preswilydd yn CF35 nad oeddent yn defnyddio gofal plant oherwydd nad oedd gofal cyfrwng Cymraeg addas yn eu hardal. Cefnogwyd hyn hefyd gan ymatebwyr o CF35 oedd â'r lefel isaf o fodlonrwydd (57%) gyda'r datganiad bod digon o ofal plant yn iaith eu dewis, o'i gymharu â lefel gyfartalog o 70%.

Gofal plant yn ystod oriau anarferol

Dywedodd ddau ymatebwr nad oeddent yn defnyddio gofal plant oherwydd nad oedd ar gael yn ystod yr oriau pan oedd ei angen arnynt.

Roedd un ymatebwr yn byw yn CF31 ac eisiau gofal cyn 8am ac ar ôl 6pm, gan gynnwys dros nos ac ar y penwythnos.

Roedd yr ymatebwr arall yn byw yn CF35 ac eisiau gofal cyn 8am ac ar ôl 5.30pm.

Nid oes unrhyw ddarparwr gofal plant dros nos nac ar y penwythnos yn y fwrdeistref ar hyn o bryd. Ni ddywedodd yr un o'r ymatebwyr y byddai angen y gwasanaeth hwn arnynt yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae rhieni'n defnyddio mathau eraill o ofal plant:

	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul
Dros Nos (6pm – 7am)	2	2	3	1	3	2	1

Gofal yn ystod gwyliau'r ysgol

At ei gilydd roedd y rhan fwyaf (71%) yn fodlon ag ansawdd y gofal plant dros y gwyliau. Roedd hyn yn sylweddol is yn CF34 gyda dim ond un o bob tri (33% yn dweud eu bod yn fodlon â'r gofal dros y gwyliau.

Gofal i blant gydag anghenion ychwanegol

Dywedodd dri ymatebwr na allent gael gfael ar ofal plant oherwydd anghenion ychwanegol eu plentyn. O'r tri, dywedodd ddau fod gan eu plentyn anabledd lleferydd ac iaith a'u bod yn byw yn CF32 a CF35. Dywedodd y trydydd fod gan eu plentyn ddyslecsia a'u bod yn byw yn ardal CF34.

Roedd un ymatebwr eisiau gofal plant drwy gyfrwng Iaith Arwyddion Prydain.

Gofal cofleidiol

Dywedodd bob un o'r ardaloedd fod arnynt eisiau mwy o ofal cofleidiol. Dylai hyn hefyd gefnogi lleiafrif o ymatebwyr a ddywedodd fod y gofal plant oedd ar gael ar hyn o bryd yn rhwystr i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, yn bennaf yn CF33 (64%) a CF34 (67%). Roedd gan rieni yn CF34 hefyd lai o hyder yn eu trefniadau gofal plant a dywedodd 83% ohonynt eu bod yn cael trafferthion gyda gofal plant annibynadwy, oedd yn llawer uwch na'r cyfartalog o 35%.

Ceisiadau am amseroedd gofal plant

O'r rhai nad oedd yn defnyddio gofal plant, dyma'r amseroedd pryd y byddent yn ei ddefnyddio pe bai ar gael:

	CF31	CF32	CF33	CF34	CF35	CF36
Cyn 8am	1	1		1	1	1
Ar ôl 6pm		1	1	1		
Gofal dros nos						1
Gofal ar y penwythnos				1		

Ystyriaethau nodedig eraill.

Mae tua un o bob pedwar (23%) o'r ymatebwyr o'r farn nad oes gofal plant ar gael i blentyn eu hoed hwy. Roedd y farn yma gryfaf yn CF33 gydag un o bob dau (50%) yn cytuno â'r datganiad. Yr ystodau oed oedd: dan 12 mis (2), 2 oed (2), 3 oed (1) ac 8-11 oed (2).

Dywedodd saith o bob deg (69%) o breswylwyr CF33 mai ychydig iawn o ddewis o ofal plant sydd yn yr ardal, sy'n llawer mwy na'r cyfartalog o 51%. Felly hefyd, mae rhieni yn CF33 (78%) a CF32 (79%) yn credu y dylai fod mwy o ofal plant cofrestredig yn yr ardaloedd hyn sy'n uwch na'r cyfartalog o 52%.

Yn gryno, mae'r materion a'r bylchau canlynol wedi eu hadnabod drwy'r ymarferion ymgynghori:

- Ystyrir bod gofal plant yn rhy ddrud
- Mae angen mwy o ofal plant drwy'r Gymraeg yn CF35
O.N. Mae Cylch Meithrin ym Mhen-coed ond nid oes gofal plant y tu allan i oriau ysgol drwy'r Gymraeg yn yr ardal hon oherwydd bod yr Ysgol Gynradd Gymraeg ym mhost cod CF31. O'r ymatebion mae'n aneglur sut fath o ofal plant y byddai'r ymatebwyr am ei gael drwy'r Gymraeg.
- Roedd gofal plant yn ystod oriau anarferol hefyd yn fwlc mewn dwy ardal cod post: CF31 a CF35. Fodd bynnag nid yw'r un ardal yn cynnig y math yma o ddarpariaeth ac felly mae'n fwlc ar draws y sir.
- Mae gofal plant arbenigol i blant gydag anghenion ychwanegol wedi'i adnabod fel bwlc. Mae hyn yn seiliedig ar ddata o'r holiaduron rhieni a hefyd o'r grwpiau ffocws. Mae CF32 a CF35 wedi eu nodi fel ardaloedd lle mae bwlc penodol.
O.N. Fodd bynnag, gyda'r Bont, mae Pen-y-bont wedi adnabod darpariaeth arbenigol sy'n cefnogi plant a theuluoedd ar draws y sir. Drwy arian grant, mae cyllid 1:1 ar gael yn y sector Blynyddoedd Cynnar a llawer o'r darparwyr yn cynnig gofal cynhwysol ond ni fedrant ariannu'r staff ychwanegol sydd eu hangen i ateb anghenion y plant.
- Mae gofal cofleidiol wedi'i adnabod fel bwlc ar draws y fwrdeistref sirol, yn enwedig yn CF34 a CF33.
- Canfyddiad preswylwyr CF33 yw mai ychydig iawn o ofal plant sydd ar gael yn eu hardal.
O.N. Mae gofal Dechrau'n Deg, Cylch Meithrin, Cylch Chwarae, dwy feithrinfa ddydd, Clwb Brecwast, Ar Ôl Ysgol a Gwyliau, darpariaeth ieuenctid a chlwb ar ôl ysgol yn un o'r ysgolion. Mae yma hefyd o leiaf dri gwarchodwr plant. Er mai'r canfyddiad yw bod yma fwlc, y realiti yw bod gan yr ardal ddigon o ddarpariaeth, drwy'r Saesneg a'r Gymraeg, ar gyfer amrywiaeth o oedran.
- Ymddengys bod CF32 yn dangos diffyg darparwyr gofal plant cofrestredig.
O.N. Mae Cwm Garw a Chwm Ogwr yn ardaloedd sy'n parhau i fod angen eu datblygu ac yn fwlc daearyddol. Fodd bynnag, mae Dyffryn Garw wedi gweld gwelliannau'n ddiweddar fel y clwb ar ôl ysgol yn Ffaldau a Chylch Meithrin cofrestredig yng Nghwm Garw.

Materion pwysig i'w nodi

Fel y soniwyd yn y Rhagarweiniad i'r ddogfen hon, mae'r data ar y cyflenwad wedi profi i fod yn anghywir oherwydd gweithrediad y data SASS, oedd yn fwy cymhleth nag yr oeddem yn ei ddisgwyl. Felly nid yw'r bylchau a fyddai fel arfer yn cael eu nodi o'r cyflenwad yn erbyn y galw wedi cael eu dangos, neu mewn rhai achosion mae bylchau nad ydynt yn bodoli wedi cael eu nodi. Mae'r Tîm Gofal Plant yn gwbl ymwybodol o'r bylchau gwirioneddol ar draws y sir a bwriedir eu nodi yn y Cynllun Gweithredu, ynghyd â sut y gobeithiwn eu llenwi. Bydd y Cynllun Gweithredu cynhwysfawr yn nodi blaenoriaethau'r Tîm Gofal Plant dros y pum mlynedd nesaf yn glir gan gynnwys strategaethau i ddelio â'r Cynnig Gofal Plant. Er ei bod yn glir o ymgynghori â rhieni bod bylchau'n bodoli, a rhaid nodi'r rhain, mae'r Tîm Gofal Plant hefyd yn ymwybodol o'r bylchau canlynol yn y sir:

- Cwm Garw (pob math o ddarpariaeth) – CF32
- Cwm Ogwr (pob math o ddarpariaeth ond yn enwedig cyfrwng Gymraeg) – CF32
- Porthcawl (Cylch Chwarae a chlwb ar ôl ysgol ar safle'r ysgolion) – CF36

- Bracla (Cylch Chwarae – Saesneg a Chymraeg) – CF31
- Pentrefi Porth y Cymoedd (gofal dros y gwyliau – Saesneg a Chymraeg) – CF32
- Mwy o ddarpariaeth gofrestredig i ddarparu gofal y tu allan i oriau ysgol ar draws y sir.
- Mwy o ofal cofleidiol ar draws y sir.

16. Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant – Cynllun Gweithredu

Cynllun Gweithredu – Tîm Gofal Plant Pen-y-bont ar Ogwr 2017-18			
Gweithredu wedi'i gynllunio	Canlyniadau	Dull / Mesurau	Adnoddau / Heriau
Holl swyddogion y Tîm Gofal Plant i gyfrannu at y broses o gynllunio'r camau gweithredu gan sicrhau bod camau strategol y Tîm yn hyrwyddo datblygu gofal plant lle mae ei angen.	Holl aelodau o'r Tîm Gofal Plant i fod yn ymwybodol o'r bylchau a'u blaenoriaethau o ran datblygu a chynnal darpariaeth gofal plant.	Mae holl swyddogion y Tîm Gofal Plant yn ymwybodol o'r bylchau ac yn cyfrannu at gynllunio gweithredu ac yn chwarae rôl weithredol drwy gefnogi darparwyr newydd a phresennol.	Holl Swyddogion y Tîm Gofal Plant i barhau i gyflawni gwaith datblygu cadarnhaol gyda darparwyr newydd a'u helpu i gofrestru gydag AGGCC a thrwy hyrwyddo rhaglenni sy'n anelu at godi ansawdd a safon y ddarpariaeth:
<u>Gweithredu wedi'i gynllunio:</u> Gwarchodwyr plant	Mae nifer y gwarchodwyr plant ym Mhen-y-bont wedi lleihau'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae adroddiad gan PACEY Cymru i'r awdurdod lleol yn cadarnhau bod hyn yn digwydd ar draws gwahanol awdurdodau. Mae angen prosesau	Swyddogion Datblygu i gysylltu i adroddiad PACEY ac ystyried gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo Gwarchod Plant fel gyrfa. Parhau i weithio gyda darparwyr hyfforddiant i gynnig Uned 79 i ddarpar warchodwyr plant. Eu cefnogi i aros yn gynaliadwy ac i gynnig <u>oriau</u>	Swyddogion Datblygu yn y Tîm Gofal Plant i gefnogi, ynghyd ag efallai defnyddio gweithdai a sesiynau cymorth PACEY ar gyfer cofrestru a pholisïau.

Paratoi ar gyfer y Cynnig Gofal Plant	newydd ar gyfer atgyfeirio gwarchodwyr plant i dderbyn cymorth, ar gyfer gwarchodwyr plant Rhwydwaith, i gefnogi proses gliriach. Daw'r cynnig gofal plant â llawer o gyffro a heriau yn ei sgîl i Ben-y-bont. Mae angen i ni ddatblygu gofal plant i lenwi'r bylchau – ym mha ardaloedd a sut fath o ofal - ac edrych ar yr oriau sydd ei angen ar rieni. Rhaid hefyd ystyried gofal dros y gwyliau ynghyd â dadsefydlogi'r farchnad.	<u>anarferol i ateb anghenion y cynnig gofal plant.</u> Digwyddiad mapio i weld beth sydd ar gael ym Mhen-y-bont – drwy ddefnyddio gwybodaeth gan AGGCC a gwybodaeth leol. Gweithio gyda darparwyr i ehangu opsiynau gofal. Gweithio gydag ysgolion i nodi capasiti'r adeiladau a'r safleoedd i <u>ddarparu gofal cofleidiol, yn enwedig gofal ar ôl ysgol.</u> Ymchwilio a oes modd i ddarparwr preifat ddefnyddio adeiladau Dechrau'n Deg i gynnig gofal cofleidiol o gwmpas y sesiynau Dechrau'n Deg a chynnig clwb dros y gwyliau, yn enwedig yn adeilad Cwm Ogwr.	Staff yn y Tîm Gofal Plant a'r Tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant ehangach. 4 staff, dim ond un yn llawn amser. Problemau capasiti. Yn chwilio i recriwtio person ychwanegol i gefnogi'r dasg hon, sy'n drwm ar adnoddau. Staff o'r rhaglen moderneiddio ysgolion a dadansoddwr data.	
---	--	--	---	--

Mwy o ofal dros y gwyliau	Gyda'r cynnig gofal plant ar y gorwel, bydd yn bwysig datblygu'r ddarpariaeth dros y gwyliau ym Mhen-y-bont. Er nad oes gan y gwasanaethau presennol dros y gwyliau leoedd gwag a dim rhestri aros – bydd angen lleoedd gwyliau ychwanegol pan weithredir y cynnig gofal plant.	Digwyddiad mapio i nodi ble mae lleoliadau gofal gwyliau cofrestredig ac anghofrestredig ar draws y fwrdeistref. Gweithio gyda'r darparwyr presennol (darparwyr yn ystod y tymor a thros y gwyliau) i edrych ar ehangu cyfleoedd gofal. Edrych ar yr adeiladau a gweithio gydag ysgolion. Mae dadansoddiad o'r bylchau'n nodi bod angen penodol yn ardaloedd CF32/CF39.	Telerau ac amodau ariannu.	
Gofal i blant gydag anghenion ADY	Cefnogi lleoliadau i barhau i fod yn gynhwysol a rhoi cymorth ariannol i ariannu darpariaeth 1:1 i blant dan 3 oed. Darparu hyfforddiant fel bo'r staff yn gallu delio ag ystod o wahanol anghenion.	Parhau i ddod o hyd i arian grant i gefnogi staffio 1:1 oherwydd mae'r angen yn cynyddu ac mae manteision ymyrryd yn gynnwys yn amlwg o'r dystiolaeth.	Amser y swyddog datblygu. Gallai fod angen annog staff sy'n gyndyn o hyfforddi a chefnogi eu datblygiad proffesiynol.	
Datblygu'r Gweithlu – Cynnydd ar gyfer Llwyddiant	Gyda'r NMS a'r cymwysterau diwygiedig, mae	Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant lleol i gynnig y cymwysterau iawn i'r gweithlu. Yn benodol, cyfeirio'r gweithlu gofal plant ymlaen i'r cyfle		

	Rheolwr y Tîm Gofal Plant i gyflwyno cynnig am y grant Gofal y Tu Allan i Orlau Ysgol yn 2017/18 gan adeiladu ar flynyddoedd blaenorol ac yn rhoi sylw i fylchau yn y ddarpariaeth gofal plant. Bydd ffocws penodol ar y Cynnig Gofal Plant. Blaenoriaeth eraill ar gyfer 17-18: Cynllun Byrbrydau Iach Aur i'w gyflwyno i BOB lleoliad gofal plant. Yn enwedig rhai sydd wedi derbyn arian grant. Parhau i weithio mewn partneriaeth â thimau Dechrau'n Deg i gyflawni arsylwadau ITERS mewn	monitro defnydd effeithiol o'r grant. Bydd amser y swyddog datblygu yn canolbwyntio ar gefnogi darparwyr gofal y tu allan i oriau ysgol, yn rhai presennol a newydd. Bydd y cynllun Dwylo Ychwanegol a'r Cynllun Cymorth Lleoedd yn cael eu gweithredu a'u monitro. Cefnogir y gweithlu drwy nodi hyfforddiant a chyfeirio staff i dderbyn hyfforddiant Gwaith Chwarae i sicrhau eu bod yn cydymffurfio erbyn 2018 fel sy'n ofynnol o dan reoliadau newydd AGGCC. Mae bwyta'n iach ac yn enwedig Gordewdra mewn Plentyndod yn ffocws mawr ac i gefnogi'r ymgyrch hon rhaid i ni sicrhau bod plant yn cael byrbrydau iach mewn clybiau. Y swyddog datblygu i ddarparu'r cynllun byrbrydau iach i bob sector a monitro ei weithrediad a'i lwyddiant.	oherwydd oriau agor y clybiau. Capasiti swyddogion datblygu i gyflwyno byrbrydau iach a chyflawni arsylwadau. Amser swyddogion datblygu i gyflawni'r ITERS.	
--	---	--	--	--

	lleoliadau gofal plant ar draws y sector a'r fwrdeistref. Mae ITERS yn cael ei ddiwygio a bydd y ffocws ar weithredu'r raddfa STEW. Bydd y Tîm Gofal Plant, mewn partneriaeth â Dechrau'n Deg, yn parhau i ddatblygu'r pontio rhwng lleoliad gofal plant ac ysgol. Gan edrych ar ble mae plant yn pontio, yn enwedig o HSPCC Cyfrwng Cymraeg – y tîm gofal plant i ddatblygu'r cynnig ar gyfer y gyllideb HSPSS ym Mhen-y-bont. Bydd ffocws ar achrediad a chyllid gwrth-gordewdra. Hyfforddiant – bydd y tîm gofal plant yn parhau i sicrhau bod cyrsiau gorfodol yn cael eu cynnig ac yn chwilio am ffyrdd mwy	Mae gofal plant o ansawdd yn cael sylw mwy blaenllaw fyth gan y systemau sgorio a'r cynnig gofal plant. Mae gofal plant o ansawdd uchel yn gwneud gwahaniaeth. Bydd arsylwi ar leoliadau'n defnyddio ITERS a STEW yn helpu i godi safonau ac yn cael effaith ar ddatblygiad plant. Arsylwadau blynyddol, adborth drwy sgoriau a chynlluniau gweithredu i'w monitro a'u cefnogi. Rhaglen hyfforddiant wedi'i harchebu a'r presenoldeb yn cael ei fonitro. Cyflawni dadansoddiad o anghenion	Amser swyddogion datblygu, y Gweithlu Gofal Plant yn gyndyn o newid a phroblemau cyllido oherwydd bod cyllidebau hyfforddiant yn cael eu torri.	
--	--	--	--	--

	arloesol o ddarparu hyfforddiant CPD, e.e. hyfforddiant yn cael ei ddarparu gyda'r plant yn y sesiwn.	hyfforddiant ac ymgynghori â'r sector ar gyfleoedd CPD a chysiau hyfforddiant mewnol. Ystyried datblygu cyfarfodydd Rhwydwaith ar gyfer gwahanol ardaloedd yn y sector.		
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS)	Mae gan y tîm gofal plant ddyletswydd statudol y gwasanaeth FIS ac felly rhaid iddynt sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo a ble i ddod o hyd i wybodaeth am wasanaethau. Mae Cyngor Pen-y-bont wedi mabwysiadu DEWIS Cymru ac mae gwybodaeth y darparwyr gofal plant wedi'i diweddarau ar y system hon. Gofal plant di-dreth i'w hyrwyddo i deuluoedd ac mewn lleoliadau.	Swyddogion Datblygu i gefnogi'r broses hon ac i helpu'r darparwr gofal plant i reoli eu gwybodaeth ar y system hon. Hyrwyddo gofal plant di-dreth drwy ymweliadau'r swyddog datblygu â lleoliadau ac e-bostio gwybodaeth gan HMRC. Defnyddio Facebook a gwaith allgymorth i hyrwyddo gofal plant di-dreth i rieni. Defnyddio deunyddiau hyrwyddo gan HMRC – gwybodaeth am ofal	Capasiti'r swyddog datblygu i gyflawni allgymorth. Bwriedir defnyddio staff yn y timau Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant ehangach i hyrwyddo hyn. Gallai capasiti TG pobl i lanlwytho hyn i Facebook / gwefannau fod yn her.	

		plant di-dreth / talebau gofal plant.		
--	--	--	--	--